41. Yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail rhyw. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Ymddeoliadau

42. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 54-69 (Dewis Gohiriedig), 188-201 (DewisUniongyrchol) a 272-275 (Ymddeoliad Cynamserol) o'r ddogfen ymgynghori.

43. Mae [Adran 2](#) o'r PSPJOA yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ddarparu DCU i aelodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r TPS gyfrifo buddion o dan y ddau gynllun a chyflwyno opsiynau i'r aelod, o'r un dyddiad ymddeol, a allai fod yn wahanol oherwydd y gwahaniaethau NPA h.y., gellid cymhwyso swm uwch neu is o ffactorau ymddeoliad cynnar. Gall yr amrywiad rhwng cynlluniau hefyd effeithio ar gyfraniadau aelodau, ond bydd hyn yn cael ei amlinellu yn yr [RSS](#) fel y gall yr aelodau wneud penderfyniad gwybodus.

44. Mae'r tabl effaith ymddeoliad isod yn amlinellu'r gwahanol fathau o ymddeoliad a lle mae ystyriaethau cydraddoldeb yn ymwneud â'r DCU wedi'u nodi.

	Disgrifiad	Ystyriaethau Cydraddoldeb
<b>Ymddeoliad Cynnar</b>	Gellir cymryd buddion pensiwn o 55 oed, ond cymhwysir gostyngiad actiwaraid pan yw buddion yn cael eu talu cyn NPA y cynllun.	Byddai aelodau heb warchodaeth sy'n dewis buddion cynllun diwygio yn destun addasiad actiwaraid is ar eu buddion, oherwydd yr NPA is yn y cynllun etifeddiaeth, a allai wneud eu buddion pensiwn yn hygyrch ar oedran iau.
<b>Ymddeoliad Oedran</b>	Aelodau sy'n gwneud cais am ymddeoliad ar, neu ar ôl cyrraedd, NPA lle telir buddion yn llawn heb unrhyw ostyngiadau.	Dim byd wedi'i nodi ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gynnydd neu ostyngiad i fuddion a gronnwyd, gan eu bod yn cael eu cymryd ar NPA, ac felly nid oes unrhyw ystyriaethau cydraddoldeb.
<b>Ymddeoliad Cynamserol</b>	Aelodau sy'n cymryd ymddeoliad cynnar oherwydd diswyddiad, ond gyda thaliad iawndal gan y cyflogwr yn ychwanegol at eu buddion pensiwn. Mae'r taliad iawndal a delir gan gyflogwyr ar wahân i fuddion cynllun o fewn y TPS ac felly nid yw'n cael ei ystyried fel rhan o swm budd TPS. Felly mae ymddeoliadau cynamserol wedi'u hystyried ochr yn ochr ag ymddeoliadau cynnar.	

<b>Ymddeoliad Hwyr</b>	Mae rheoliadau TPS yn cynnwys darpariaethau i aelodau NPA 65 etifeddiaeth ac aelodau diwygiedig gael eu buddion wedi'u gwella'n actiwaraid pan yw cyflogaeth wedi parhau ar ôl cyrraedd eu NPA.	Dim byd wedi'i nodi ar hyn o bryd. Buddion a ddarperir ar yr un dyddiad ymddeol o dan y ddau gynllun.
<b>Ymddeoliad Rhannol</b>	Ar ôl cyrraedd NPA o adran o'r TPS, gall aelodau ddewis derbyn buddion ymddeoliad ar gyfer un adran yn unig e.e. adran NPA60, gan ohirio ymddeoliad o unrhyw adran(nau) eraill y maent wedi cronni ynddi/ynt, tan ddyddiad diweddarach.	Dim byd wedi'i nodi ar hyn o bryd. Buddion a ddarperir ar oedran pensiwn arferol y cynlluniau perthnasol.
<b>Ymddeoliad Graddol</b>	Efallai y bydd aelodau am leihau eu horiau gwaith neu eu cyfrifoldebau wrth agosáu at eu hymddeoliad. Cyn belled â bod aelod yn gostwng ei gyflog cyfranadwy blynyddol o leiaf 20%, gall yr aelod wneud cais i dderbyn hyd at 75% o'r buddion cronedig a pharhau i weithio.	Dim byd wedi'i nodi ar hyn o bryd. Bydd rheolau presennol y cynllun yn parhau i fod yn berthnasol.
<b>Cyfandaliad Bach</b>	Gall aelodau gyfnewid eu buddion pensiwn blynyddol am gyfandaliad ar yr amod nad yw'r gwerth actiwaraid yn fwy na £10,000 o un ffynhonnell.	Dim byd wedi'i nodi ar hyn o bryd. Buddion a ddarperir ar yr un dyddiad ymddeol o dan y ddau gynllun ond efallai na fyddant bellach yn gymwys ar gyfer SLS os yw gwerth y buddion wedi cynyddu.
<b>Cyfnewidiad Bychan</b>	Gall aelodau gyfnewid eu buddion pensiwn blynyddol am gyfandaliad ar yr amod nad yw'r gwerth actiwaraid yn fwy na £30,000 o bob ffynhonnell.	Dim byd wedi'i nodi ar hyn o bryd. Buddion a ddarperir ar yr un dyddiad ymddeol o dan y ddau gynllun ond efallai na fyddant bellach yn gymwys ar gyfer TC os yw gwerth y buddion wedi cynyddu.

Tabl 8: Tabl Effaith Aelodau Ymddeoliadau

45. Mae'r Adran yn y broses o ddiwygio'r rheoliadau TPS i fodloni darpariaeth y DCU, fel y darperir ar ei gyfer gan HMT, ond fel arall nid yw'r rheolau neu'r rheoliadau presennol ar gyfer cyfrifiadau buddion ymddeol wedi newid.
46. Yn dilyn ymlaen o **Dabl 8** uchod, bydd ymddeoliadau cynnar yn cael eu dadansoddi isod yn erbyn y nodweddion gwarchodedig oherwydd bod ystyriaeth cydraddoldeb yn bresennol ar gyfer y math hwn o ymddeoliad. Mae **Tabl 9** ar y dudalen ganlynol yn darparu ar gyfer aelodau sydd wedi cymryd ymddeoliad cynnar o fewn y cyfnod rhwymedi, eu hoedran, rhyw a math o warchodaeth:

	Cyfanswm Ymddeoliadau Cynnar			Gwarchodaeth Llawn			Gwarchodaeth Daprog			Heb Warchodaeth (Trosiannol)		
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
<b>&lt;54</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>55-59</b>	5,103	10,621	15,724	47	50	97	4,137	8,632	12,769	919	1,939	2,858
<b>60-64</b>	8,447	17,087	25,534	7,897	16,034	23,931	408	746	1,154	142	307	449
<b>65-69</b>	1,403	2,816	4,219	1,402	2,816	4,218	1	0	1	0	0	0
<b>70-74</b>	20	22	42	20	22	42	0	0	0	0	0	0
<b>75-82</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>14,973</b>	<b>30,546</b>	<b>45,519</b>	<b>9,366</b>	<b>18,922</b>	<b>28,288</b>	<b>4,546</b>	<b>9,378</b>	<b>13,924</b>	<b>1,061</b>	<b>2,246</b>	<b>3,307</b>

Tabl 9: Ymddeoliadau Cynnar o fewn y Cyfnod Rhwymedi

## Oedran


47. Ar ôl cael gwared ar y mathau o warchodaeth wahaniaethol, mae gan aelodau heb warchodaeth a'r rhai gyda gwarchodaeth daprog fynediad at y cynllun etifeddiaeth am gyfnod hwy o wasanaeth. Gan fod gan y cynllun etifeddiaeth NPA is, pe byddai aelod yn cymryd ymddeoliad cynnar, byddai'n destun llai o flynyddoedd o addasiad actiwaraidd o'i NPA i'w ddyddiad ymddeol dewisol. Gallai hyn arwain aelodau at allu cael mynediad at eu buddion yn iau, o gymharu â'r cynllun diwygiedig, oherwydd bod llai o ostyngiad yn cael ei gymhwyso ac felly'n darparu gwerth pensiwn uwch.
48. Gan ddefnyddio'r data yn **Nhabl 9** uchod, mae hyn yn dangos bod ymddeoliadau cynnar yn cynnwys 62% o aelodau gwarchodaeth llawn, 31% o aelodau gwarchodaeth daprog a 7% o aelodau heb warchodaeth. O ystyried y dyfarnwyd gwarchodaeth ar sail oedran, ni fydd y rhan fwyaf o aelodau heb warchodaeth yn cyrraedd yr isafswm oedran pensiwn (MPA) o 55 oed eto i gael mynediad at ymddeoliad cynnar, y mae'n ymddangos bod y ffigurau'n adlewyrchu hynny. Wrth edrych yn ôl ar **Dabl 6**, gallwn weld bod 72% o aelodau heb warchodaeth wedi parhau i fod yn weithredol ac o fewn y boblogaeth weithredol hon:
- mae 8% yn fwy na 55 oed,
  - mae 21% yn 50-54 oed,
  - mae 23% yn 45-49 oed,
  - mae 48% yn 44 oed neu'n iau.
49. Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r MPA yn 55 oed felly os yw'r aelodau gweithredol heb warchodaeth uchod yn parhau i weithio hyd at 55 oed neu'n hŷn, yn y pen draw bydd gan rai wasanaeth cynllun diwygiedig a gwasanaeth cynllun etifeddiaeth cyfartal neu fwy o wasanaeth cynllun diwygiedig nag etifeddiaeth, yn dibynnu ar eu hoedran a dyddiad ymuno â'r cynllun. Byddai hyd gwasanaeth aelod felly yn berthnasol i fesur effaith y DCU ar argaeledd ymddeoliad. Mae hyn yn cydgysylltu â'r potensial i aelodau gael mynediad at eu buddion yn gynharach oherwydd, er y gallent ddewis gwasanaeth cynllun etifeddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwymedi, byddai llawer o aelodau'n cael cyfnod sylweddol o'u gwasanaeth cyffredinol o dan y cynllun diwygiedig, o ystyried eu bod wedi ymuno â'r cynllun ar 1 Ebrill 2022, ac felly efallai na fydd hyn yn cael effaith sylweddol ar eu gallu i ymddeol a dyddiad penodol. Os caiff buddion aelod eu rhannu'n gyfartal rhwng y cynlluniau, byddent yn dal i fod yn destun gostyngiad actiwaraidd ar fwy na hanner eu buddion o NPA uwch y cynllun diwygiedig.
50. Yn arwain ymlaen o hyn, byddai effaith y DCU ar y gallu i gael mynediad at fuddion yn debygol o fod yn wahanol i aelodau heb warchodaeth yn seiliedig ar eu hoedran. I aelodau sydd ar MPA 55 oed neu'n agos ato, mae gallu cadw'r mwyafrif o'u buddion yn y cynllun etifeddiaeth yn debygol o fod yn fuddiol gan y

byddai'r cynllun hwn yn dal y buddion sylweddol a gronwyd dros yrfa aelod. Mewn cymhariaeth, ar gyfer aelodau nad ydynt ar MPA 55 oed neu'n agos ato, mae'r effaith yn debygol o fod yn llai. O ystyried y codiad oedran yn oedran pensiwn y wladwriaeth gallwn gymryd yn ganiataol y gall aelodau barhau i weithio tan oedran hŷn o gymharu ag aelodau sydd wedi cyrraedd oedran ymddeol ar hyn o bryd sy'n golygu y gallai fod yn fwy buddiol felly i aelodau aros yn y cynllun diwygiedig i gronni buddion pellach y tu hwnt i 60 oed.

51. Yn gyffredinol, byddai cael buddion cynllun etifeddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwymedi o fudd i aelodau hŷn sydd heb warchodaeth ac aelodau gwarchodaeth daprog a gallai fod o fudd i'r aelodau iau yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u hoedran ymddeol arfaethedig. Gallai buddion cynllun diwygiedig fod yn opsiwn gwell i aelodau iau o'r TPS, ond o ystyried y DCU, gall pob aelod wneud dewis sy'n unol â'u hamgylchiadau personol.

## Rhyw

Mae'r siart isod yn dangos rhyw aelodau o fewn y cynllun TPS, cyfanswm yr ymddeoliadau cynnar sydd o fewn cwmpas y rhwymedi a chyfanswm yr ymddeoliadau cynnar hyn wedyn wedi'u rhannu'n 3 math o warchodaeth:



**Cyfanswm Aelodau TPS – Cyfanswm Ymddeoliad Cynnar – Gwarchodaeth Llawn – Gwarchodaeth Daprog – Heb Warchodaeth**

**Gwryw    Benyw**

**Ffigur 3: Proffiliau Rhyw o Ymddeoliadau Cynnar yn ôl Math o Warchodaeth**

52. Yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn

aelodau ar sail rhyw. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.



## Ymddeoliadau Afiechyd

53. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 146-159 a 267-271 o'r ddogfen ymgynghori.

54. Mae'r PSPJO yn darparu bod yn rhaid i wasanaeth adferadwy y cynllun diwygiedig gael ei ddirwyn yn ôl i'r cynllun etifeddiaeth ac yna rhaid rhoi'r dewis i aelodau cymwys i ddewis buddion cynllun diwygiedig ar adeg ymddeol. Gan fod gan y cynlluniau etifeddiaeth a diwygiedig NPAs gwahanol, gall hyn yn ei dro effeithio ar gymhwysedd aelod ar gyfer IHR o ystyried bod y meini prawf mewn dwy haen:

- 1) **Cyflwr Analluogrwydd:** methu ag addysgu'n barhaol hyd at NPA.
- 2) **Cyflwr Analluogrwydd Llwyf:** methu ag addysgu'n barhaol na dechrau unrhyw gyflogaeth arall hyd at NPA.

55. Mae'r Adran yn cynnig rheoliadau cynllun newydd mewn perthynas â darparu DCU i'r aelod, fel sy'n ofynnol gan y PSPJOA, ond fel arall mae'r rheolau neu'r rheoliadau presennol yn parhau yn eu lle.

56. Mae'r 2 dabl data ar y tudalennau canlynol yn dangos:

Rhif y Tabl	Enw	Disgrifiad
11	Cyfanswm Afiechyd a Cheisiadau a Gwrthodiadau Afiechyd Chyflog Terfynol Etifeddiaeth	Mae'r tabl hwn wedi'i rannu'n 4 adran, a rhan 1 yw cyfanswm y ceisiadau a'r gwrthodiadau afiechyd sydd o fewn cwmpas y rhwymedi TrP. Mae Rhannau 2 a 3 yn dangos dadansoddiad o achosion IHR y cynllun etifeddiaeth, o ran 1, fesul haen ac a oedd yr aelod mewn gwasanaeth neu allan o wasanaeth. Mae Rhan 4 yn dangos cyfanswm nifer y gwrthodiadau IHR etifeddiaeth.
12	Cyfanswm Afiechyd a Cheisiadau a Gwrthodiadau Afiechyd Cyfartaledd Gyrfa Ddiwygiedig	Yr un fath â thabl 17 uchod, ond mae rhannau 2 a 3 yn dangos achosion IHR y cynllun diwygiedig ac mae rhan 4 yn dangos y gwrthodiadau.

**Tabl 10: Trosolwg o Dablau Data Afiechyd**

	Cyfanswm Afiechyd			Haen 1 (Analluogrwydd)						Haen 2 ( Analluogrwydd Llwyf) <sup>26</sup>						Gwrthodiadau		
				Mewn Gwasanaeth			Allan o Wasanaeth			Mewn Gwasanaeth			Allan o Wasanaeth					
	G	B	C	G	B	C	G	B	C	G	B	C	G	B	C	G	B	C
<b>&lt;29</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>30-34</b>	0	1	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>35-39</b>	9	43	52	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>40-44</b>	36	130	166	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>45-49</b>	77	270	347	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>50-54</b>	214	584	798	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>55-59</b>	446	1,090	1,536	43	84	127	9	21	30	78	224	302	0	0	0	20	43	63
<b>60-64</b>	308	699	1,007	69	118	187	9	20	29	157	404	561	0	0	0	49	89	138
<b>65-69</b>	38	84	122	5	13	18	1	2	3	27	61	88	0	0	0	5	8	13
<b>70-74</b>	1	1	2	0	0	0	0	0	0	1	1	2	0	0	0	0	0	0
<b>75-82</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,129</b>	<b>2,902</b>	<b>4,031<sup>27</sup></b>	<b>117</b>	<b>215</b>	<b>332</b>	<b>19</b>	<b>43</b>	<b>62</b>	<b>263</b>	<b>690</b>	<b>953</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>74</b>	<b>140</b>	<b>214</b>
	28%	72%	100%	35%	65%	100%	31%	69%	100%	28%	72%	100%	0	0	0	35%	65%	100%

G = Gwryw, B = Benyw, C = Cyfanswm

**Tabl 11: Cyfanswm Afiechyd<sup>28</sup> a Cheisiadau a Gwrthodiadau Afiechyd Cyflog Terfynol Etifeddiaeth<sup>29</sup>**

<sup>26</sup> Mae Haen 2 ar gael i aelodau gweithredol o'r cynllun yn unig neu pan fydd aelod yn gwneud cais am IHR o fewn 2 flynedd i adael addysgu am yr un cyflwr afiechyd. Byddai'r olaf yn dod o dan y pennawd cais allan o wasanaeth

<sup>27</sup> O fewn y cyfanswm hwn, mae 403 o aelodau wedi marw ers hynny yn dilyn ymddeoliad neu wrthodiad ar sail afiechyd

<sup>28</sup> Mae'r cyfanswm yn cynnwys yr holl achosion afiechyd o fewn cwmpas McCloud a darpariaeth DCU h.y., haen 1, haen 2 a gwrthodiadau o dan gynlluniau etifeddiaeth a diwygiedig

<sup>29</sup> Mae hyn yn cynnwys trefniadau cyflog terfynol etifeddiaeth NPA60 ac NPA65

	Cyfanswm Afiechyd			Haen 1 (Analluogrwydd)						Haen 2 ( Analluogrwydd Llwyf)						Gwrthodiadau		
				Mewn Gwasanaeth			Allan o Wasanaeth			Mewn Gwasanaeth			Allan o Wasanaeth					
	G	B	C	G	B	C	G	B	C	G	B	C	G	B	C	G	B	C
<b>&lt;29</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>30-34</b>	0	1	1	0	0	0	0	0	0	0	1	1	0	0	0	0	0	0
<b>35-39</b>	9	43	52	1	10	11	1	4	5	6	27	33	0	0	0	1	2	3
<b>40-44</b>	36	130	166	8	21	29	2	9	11	19	87	106	0	0	0	7	13	20
<b>45-49</b>	77	270	347	28	71	99	4	13	17	36	158	194	0	0	0	9	28	37
<b>50-54</b>	214	584	798	63	128	191	8	24	32	109	348	457	0	0	0	34	84	118
<b>55-59</b>	446	1,090	1,536	88	141	229	4	32	36	147	427	574	0	0	0	57	118	175
<b>60-64</b>	308	699	1,007	6	8	14	4	4	8	11	38	49	0	0	0	3	18	21
<b>65-69</b>	38	84	122	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>70-74</b>	1	1	2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>75-82</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,129</b>	<b>2,902</b>	<b>4,031</b>	<b>194</b>	<b>379</b>	<b>573</b>	<b>23</b>	<b>86</b>	<b>109</b>	<b>328</b>	<b>1,079</b>	<b>1,407</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>111</b>	<b>263</b>	<b>374</b>
	28%	72%	100%	34%	66%	100%	21%	79%	100%	23%	77%	100%	0	0	0	30%	70%	100%

G = Gwryw, B = Benyw, C = Cyfanswm


Tabl 12: Cyfanswm Afiechyd a Cheisiadau a Gwrthodiadau Afiechyd Cyfartaledd Gyrfa Ddiwygiedig

## Oedran

57. Oherwydd y gwahaniaeth mewn NPA, gall aelodau a wrthodwyd o dan y cynllun diwygiedig fodloni'r meini prawf o dan y cynllun etifeddiaeth. Mae hyn oherwydd bod baich profi analluogrwydd neu analluogrwydd llwyr am gyfnod amser byrrach, gan fod yr NPA yn is, a gallai yn ei dro ddod ag aelodau i'r cwmpas ar gyfer IHR nad oedd yn bodloni'r meini prawf yn flaenorol. Fel y dangosir yn **Nhablau 11 a 12** uchod, mae 588 o aelodau wedi'u gwrthod yn flaenorol o'r IHR gyda 214 yn cael eu gwrthod o'r cynllun etifeddiaeth a 374 o'r cynllun diwygiedig. Mae gan wrthodiadau'r cynllun etifeddiaeth aelodau hŷn o gymharu â'r cynllun diwygiedig, ond mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethu gwreiddiol lle'r oedd y rhai sydd agosaf at oedran ymdeol yn aros yn y cynllun etifeddiaeth. Gallai'r DCU felly ddod â mwy o aelodau o fewn cwmpas ar gyfer IHR, sy'n cael effaith uwch ar y rhai dan 60 oed ac sy'n dileu'r gwahaniaethu ar sail oed a nodwyd yn McCloud.

## Rhyw

58. Mae'r siart isod yn dangos rhyw aelodau o fewn y TPS, y rhai sy'n cael eu talu am fuddion CIU ar hyn o bryd a gwrthodiadau cais IHR:



Cyfanswm Aelodau TPS – Taliadau Afiechyd – Gwrthodiadau Afiechyd


— Gwryw — Benyw

**Ffigur 4: Trosolwg o Broffiliau Rhyw ar gyfer Taliadau a Gwrthodiadau Afiechyd**

59. Yn gyffredinol, mae gwrywod wedi'u tangynrychioli o fewn taliadau IHR, ond bydd y proffiliau rhyw yn cael eu harchwilio'n fanylach. Ar gyfer y gwrthodiadau IHR, digwyddodd 64% o fewn y cynllun diwygiedig ac felly bydd yn cael eu hailystyried o fewn meini prawf y cynllun etifeddiaeth, oherwydd yr NPA is, i wirio cymhwysedd. O fewn y gwrthodiadau diwygiedig, mae 70% o'r rhain yn ymwneud ag aelodau benywaidd a 30% yn ddynion. Gallai hyn awgrymu bod

aelodau benywaidd yn fwy tebygol o gael mantais bellach gan rwymedi McCloud gan eu bod wedi'u gorgynrychioli ar hyn o bryd, ond gellid cynyddu'r gwahaniaeth ymhellach gan fod menywod yn fwy tebygol o fod yn gymwys ar gyfer IHR yn dilyn gwrthodiad.

60. Ar gyfer taliadau CIU, mae menywod wedi'u gorgynrychioli o gymharu ag aelodaeth o'r cynllun. Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r proffiliau rhyw ar gyfer gwahanol haenau talu'r CIU:



**Cyfanswm IHR; Etifeddiaeth Haen 1, Mewn Gwasanaeth; Diwygiedig Haen 1, Mewn Gasanaeth; Etifeddiaeth Haen 1, Allan o Wasanaeth; Diwygiedig Haen 1, Allan o Wasanaeth; Etifeddiaeth Haen 2; Diwygiedig Haen 2.**

**Gwryw Benyw**

**Ffigur 5: Proffil Rhyw ar gyfer Taliadau Afiechyd**

61. O edrych ar y proffiliau rhyw uchod, mae ceisiadau IHR mewn gwasanaeth haen 1 yn cyfateb yn y ddau gynllun rhwng y rhywiau. Ac eto, ar gyfer ceisiadau IHR allan o wasanaeth haen 1, mae 31% o wrywod yn y cynllun etifeddiaeth, ond dim ond 21% yn y cynllun diwygiedig. Yn yr un modd, ar gyfer ceisiadau haen 2, mae 28% yn y cynllun etifeddiaeth, ond dim ond 23% yn y cynllun diwygiedig. Mae'r data'n awgrymu bod gan y cynllun etifeddiaeth gynrychiolaeth gymesur o wrywod o'i gymharu â chyfraddau cyffredinol yr IHR (28% o wrywod o gymharu â 72% o fenywod) a chyfansoddiad y cynllun yn ei gyfanrwydd.

62. At hynny, gallai'r data awgrymu bod dynion yn llai tebygol o gael eu cymeradwyo ar gyfer IHR o dan y cynllun diwygiedig. O dan y DCU, bydd aelodau'n cael eu hasesu ar gyfer IHR o dan y ddau gynllun ac yn cael opsiwn IHR yn y cynllun amgen, os ydynt yn bodloni'r meini prawf. Gallai hyn awgrymu bod gwrywod yn llai tebygol o gael opsiwn IHR yn y cynllun diwygiedig pan

fyddant wedi bodloni'r meini prawf yn y cynllun etifeddiaeth. O dan haen 2, mae buddion aelodau wedi'u cynyddu hyd at NPA sy'n golygu y byddai IHR o dan y cynllun diwygiedig yn darparu buddion pellach na'r cynllun etifeddiaeth, oherwydd y gwahaniaeth mewn NPA. Yn ei dro, gallai hyn awgrymu bod aelodau benywaidd yn fwy tebygol o gael buddion ychwanegol drwy'r codiad hwn oherwydd y diffyg cynrychiolaeth o wrywod yn haen 2 y cynllun diwygiedig.

63. Er gwaethaf yr hyn uchod, mae'r Adran yn fodlon nad oes unrhyw wahaniaethu uniongyrchol nac anuniongyrchol yn erbyn aelodau gwrywaidd o'r TPS o ran y darpariaethau afiechyd. Wrth edrych ar y cyfraddau ymgeisio cyffredinol, roedd 9% yn llai o geisiadau gan wrywod o dan y cynllun diwygiedig o gymharu â'r cynllun etifeddiaeth y mae'r Adran yn credu sy'n cyfrif am y gwahaniaethau yn y data. Yn ogystal, mae'r meini prawf IHR yn berthnasol ni waeth a yw unigolyn yn rhyw arbennig, felly nid oes unrhyw effaith anghymesur ar y grŵp hwn.

## Trosglwyddiadau

64. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 124-145 a 247-263 o'r ddogfen ymgynghori.
65. Mae cyfarwyddiadau HMT yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau ddarparu'r gwerthoedd buddion etifeddiaeth a diwygiedig ar gyfer gwasanaeth adferadwy wrth drosglwyddo i gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall. Mae'r gwerthoedd hyn i'w cadw ar gofnod nes bod yr aelod yn cyrraedd ei DCU ac yn gwneud dewis buddion gyda'r buddion cyfatebol hynny wedyn yn cael eu talu. Bydd yr ymarfer hwn yn cael ei wneud yn ôl-weithredol ar gyfer aelodau sydd eisoes wedi cymryd trosglwyddiad o fewn y cyfnod rhwymedi naill ai o fewn y Clwb neu'r tu allan iddo. Ar gyfer achosion trosglwyddo nad ydynt yn rhai clwb yn y dyfodol, bydd y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yn cael ei gwblhau o dan y ddau gynllun a thelir y gwerth uchaf. Mae'r rheoliadau drafft yn nodi'r broses hon, ond fel arall mae'r rheolau neu'r rheoliadau presennol yn berthnasol.
66. Nifer y trosglwyddiadau sydd eisoes wedi digwydd o fewn y cyfnod rhwymedi yw 889 sydd wedi'i rannu i'r isod:

	Trosglwyddiadau i Mewn			Trosglwyddiadau Allan		
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
<29	0	0	0	0	0	0
30-34	5	9	14	0	0	0
35-39	22	64	86	1	2	3
40-44	30	66	96	2	2	4
45-49	44	94	138	0	2	2
50-54	59	97	156	2	0	2
55-59	59	115	174	0	1	1
60-64	49	98	147	0	0	0
65-69	18	40	58	0	0	0
70-74	3	5	8	0	0	0
75-82	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>289</b>	<b>588</b>	<b>877</b>	<b>5</b>	<b>7</b>	<b>12</b>

Tabl 13: Trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r TPS o fewn y cyfnod rhwymedi

67. Roedd yr holl aelodau gweithredol a symudodd i'r cynllun diwygiedig o 1 Ebrill 2022 yn unol â cham rhagolygol y rhwymedi i'r gwahaniaethu a ganfuwyd yn achos McCloud yn gallu cael mynediad at ffenestr drosglwyddo o 12 mis i'w galluogi i drosglwyddo buddion i'r TPS o dan reolau presennol (busnes fel arfer). Fodd bynnag, mae'r Adran yn cynnig symud y ffenestr drosglwyddo o 12 mis ar gyfer aelodau heb warchodaeth ac aelodau gyda gwarchodaeth daprog. Mae hyn oherwydd na allant ofyn am drosglwyddiad yn gynharach na'r dyddiad y caiff y rhwymedi ei roi ar waith – y dyddiad gweithredu yw 1 Hydref 2023 a

dyna pryd y daw'r rheoliadau (sy'n rheoliadau drafft ar hyn o bryd) sy'n darparu ar gyfer y cam ôl-weithredol i rym. O ganlyniad, ni all yr aelodau hyn ddefnyddio eu ffenestr drosglwyddo bresennol o 12 mis o 1 Ebrill 2022 – 1 Ebrill 2023 a bydd y TPS yn lle hynny yn gohirio eu cyfnod trosglwyddo i ddechrau ar 1 Hydref 2023. Nid yw'r mater hwn yn codi gydag aelodau gyda gwarchodaeth gan eu bod wedi ymuno â threfniant y cynllun diwygiedig ar 1 Ebrill 2022 ac felly gallant gael mynediad at eu hawliau trosglwyddo.


## Oedran

68. Caniateir i aelodau drosglwyddo eu buddion allan, neu drosglwyddo buddion i mewn, o fewn yr amserlenni 12 mis o'u dyddiad ymuno neu adael er mwyn manteisio ar reolau'r Clwb, ond ar sail nad yw'n Glwb gallent drosglwyddo eu buddion allan ar unrhyw amser penodol. Mae'r rheolau a'r rheoliadau presennol yr un mor berthnasol i bob aelod, waeth beth fo'u hoedran, fel y bydd y dull rhwymedi, sef talu'r gwerth uchaf neu gadw buddion etifeddiaeth a diwygiedig ar gofnod. Felly nid yw'r Adran wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y rhwymedi (gan gynnwys y cyfarwyddiadau a wnaed gan HMMT i'w gefnogi a'i weithredu) yn gwahaniaethu'n uniongyrchol ar sail oedran. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.
69. Mae'r penderfyniad i ohirio'r ffenestr drosglwyddo ar gyfer aelodau heb warchodaeth ac aelodau gyda gwarchodaeth daprog yn cael effeithiau cysylltiedig ag oedran o ystyried bod y gwarchodaethau cychwynnol wedi'u dyfarnu ar sail oedran. Gan fod yr aelodau hyn wedi'u symud i'r cynllun diwygiedig cyn 1 Ebrill 2022, fe wnaethant aros yn y cynllun diwygiedig y tu hwnt i 1 Ebrill 2022 ac felly nid ydynt eto wedi symud cynllun i gael mynediad at y ffenestr drosglwyddo o 12 mis. Mae hyn oherwydd bod y gweithgareddau dirwyn yn ôl yn dechrau ym mis Hydref 2023, pan fydd deddfwriaeth ar waith, a fyddai'n digwydd ar ôl i'r ffenestr 12 mis ddod i ben. Gall aelodau gyda gwarchodaeth gael mynediad i'w ffenestr drosglwyddo 12 mis o 1 Ebrill 2022 ers iddynt symud o'r trefniadau etifeddiaeth i drefniadau diwygiedig. Pe na bai'r ffenestr drosglwyddo yn cael ei gohirio ar gyfer aelodau heb warchodaeth ac aelodau gyda gwarchodaeth daprog, hyd nes y gellir symud eu gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2022 yn ôl i'r cynllun etifeddiaeth o fis Hydref 2023, byddai hyn yn creu triniaeth wahaniaethol o ran hygyrchedd trosglwyddiad i'r cynllun yn seiliedig ar y math o warchodaeth sydd â chysylltiad uniongyrchol ag oeddrannau aelodau. Felly nid yw'r Adran wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hygyrchedd y ffenestr drosglwyddo yn gwahaniaethu'n uniongyrchol ar sail oedran, gan fod mesurau eisoes ar waith i ganiatáu ar gyfer tegwch ar draws pob math o warchodaeth ac felly oedran. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl



## Rhyw

70. Ar gyfer proffiliau rhyw trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r TPS, gellir eu cymharu'n fras ag aelodaeth o'r cynllun. Fel yn yr adran oedran uchod, mae'r rheolau a'r rheoliadau presennol yr un mor berthnasol i bob aelod, waeth beth fo'u rhyw, fel y bydd y darpariaethau rhwymedi a nodir yn y PSPJOA, cyfarwyddiadau HMT a'r rheoliadau a ddaw i rym ar 1 Hydref 2023.



**Cyfanswm Aelodau TPS; Trosglwyddiadau i Mewn; Trosglwyddiadau Allan**

**Gwryw**    **Benyw**

**Ffigur 6: Proffiliau Rhyw o Drosglwyddiadau Aelodau i Mewn neu Allan o'r TPS**

71. Gan mai dim ond 12 o drosglwyddiadau sydd wedi bod allan o'r TPS, gallai cymharu dadansoddiad rhyw yr aelodau hyn â'r rhai sydd wedi trosglwyddo i mewn a chyfanswm aelodaeth y cynllun, fod yn anghynrychioliadol o ystyried y grŵp bach o aelodau. Felly, rhaid bod yn ofalus wrth adolygu'r siart uchod oherwydd mae'n bosibl na allai hyn fod yn gywir i gael tuedd graff i ryw'r aelodau yr effeithir arnynt oherwydd maint y grŵp bach.

72. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail rhyw. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Ysgariad


73. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 86-97 a 212-225 o'r ddogfen ymgynghori.

74. Mae [Adran 19](#) o'r PSPJOA yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau wneud darpariaeth ynghylch y buddion sy'n daladwy i aelodau â chredyd pensiwn (PCM) ac aelodau â debyd pensiwn (PDM), yn dilyn Gorchymyn Rhannu Pensiwn (PSO), ynghylch effaith y DCU ar wasanaeth adferadwy a felly y buddion yn cael eu talu i'r ddau aelod. Mae'r broses PSO wedi datblygu mewn ymgynghoriad â Thrysorlys Ei Fawrhydi ac mae'n berthnasol ar draws yr holl Gynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus yr effeithir arnynt, sy'n nodi bod yn rhaid i gynlluniau:

- 1) Cyfrifo dau Werth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod' (CETV) ar gyfer gwasanaeth y cyfnod rhwymedi.
- 2) Ar gyfer PSOs cyn gweithredu, cymharu hyn â'r CETV a ddefnyddiwyd yn y PSO gwreiddiol:
  - a. Os oes gwerth is – nid oes angen addasiad i'r credyd cyfredol
  - b. Os oes gwerth uwch - neilltuwch y swm dros ben a chyfrifwch hwn fel credyd:
    - i. PCM gyda chredydau yn nhrefniadau'r ddau gynllun - cyfrifwch y credyd yn y ddau gynllun a thalwch y credyd cynllun uchaf i'r PCM. Bydd y TPS yn darparu llythyr yn cadarnhau'r ddau werth credyd i'r PCM a thrwy hynny yn caniatáu iddynt gysylltu â'r cynllun a dewis credyd cynllun amgen, is, os dymunant.
    - ii. PCM gyda chredyd unigol – talwch y credyd i'r cynllun y mae ganddynt fuddion ynddo.
- 3) Ar gyfer PSOs ôl-weithredu, bydd yr uchaf o'r ddau CETV yn cael ei ddefnyddio, ond cedwir y ddau werth ar gofnod ar gyfer y PDM nes iddynt wneud eu DCU.

## Oedran

75. O fewn adran Data Aelodaeth y Cynllun, mae [Tabl 5](#) yn amlinellu'r PDM a'r PCM sydd yng nghwmpas ar gyfer y Rhwymedi. Mae'r data yn y tabl hwn wedi'i drawsosod i'r siart isod:



**Ffigur 7: Proffiliau Oedran Band PDM a PCM**

76. Mae ystod o oedranau'n cael eu heffeithio gan PSOs gyda'r rhan fwyaf o'r aelodau rhwng 55-64, ond ychydig iawn o dan 40 oed sy'n adlewyrchu oedran yr aelodau o fewn cwmpas ar gyfer y rhwymedi.

77. Mae'r tabl isod yn dangos y math o warchodaeth sydd gan y PDM sy'n gymwys ar gyfer y rhwymedi, a chredydau'r cynllun a ddyfarnwyd i'r PCM yn dilyn gweithredu'r PSO:

	<b>Credydau Cynllun PCM</b>			
	<b>FS Yn Unig</b>	<b>CA Yn Unig</b>	<b>Cymysg</b>	<b>Cyfanswm</b>
<b>Gwarchodaeth Llawn</b>	998	0	11	1,009
<b>Gwarchodaeth Daprog</b>	341	1	61	403
<b>Heb Warchodaeth</b>	457	16	677	1,150
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,796</b>	<b>17</b>	<b>749</b>	<b>2,562</b>

**Tabl 14: Credydau Cynllun PCM yn ôl Math o Warchodaeth PDM**

78. Mae PSOs yn defnyddio CETV sy'n gyfrifiad actiwaraidd niwtral a ddefnyddir ar draws pob cynllun pensiwn. Mae'r cyfrifiad CETV yn ystyried gwahanol NPAs er mwyn caniatáu ar gyfer gwerth cymharol traws-gynllun sy'n cyfrif am amrywiannau cynlluniau. Felly, dylai'r swm atodol y gall PCMs ei dderbyn fod yn werth yr un fath yn y naill gynllun neu'r llall, ond mae adegau pan allai'r gwerth CETV fod â gwahaniaethau bach oherwydd nifer o ffactorau sy'n gysylltiedig â'r cyfrifiad. Yn unol â pharagraff 72, byddai'r 749 o aelodau â chredydau yn y ddau gynllun yn cael swm ychwanegol yn cael ei gymhwyso i'r cynllun a fyddai fwyaf buddiol i'r PCM. Mae effeithiau sy'n gysylltiedig ag oedran gan mai dim ond 29% o aelodau PCM sy'n gymwys i gael credyd cynllun yn y naill gynllun neu'r llall, ond mae 90% o'r PCMs hyn yn ymwneud â


PDM heb warchodaeth. Byddai aelodau sydd ag unig gredyd yn y naill cynllun neu'r llall yn cael unrhyw werth CETV ychwanegol yn cael ei dalu fel credyd o fewn y cynllun y maent yn dal buddion ynddo. Mae hyn yn golygu na fyddai'r 1,796 o PCMs FS yn unig a'r 17 CA yn unig yn cael dewis cynllun o ran lleoli eu credyd ychwanegol. Mae'r 1,813 o aelodau hyn yn yr un modd yn cynnwys 55% yn ymwneud ag aelod gwarchodaeth llawn, 19% gyda gwarchodaeth daprog a 26% yn ymwneud ag aelod heb warchodaeth.

79. Serch hynny, nid oes gan y PCMs eu hunain wasanaeth adferadwy a barn yr Adran yw bod cyfiawnhad dros y driniaeth wahaniaethol a amlinellir uchod. Mae'r rhwymedi ar gyfer PDMs sy'n dal gwasanaeth adferadwy, fodd bynnag, o ganlyniad i'r rhwymedi, mae'n bosibl y byddai gwerth y pensiwn ar adeg yr ysgariad/diddymiad wedi bod yn wahanol pe byddai'r PDM bob amser wedi bod yn aelod o'r cynllun arall ar gyfer y cyfnod rhwymedi. Mae hyn yn golygu, er bod y ganran a ddyfynnir yn y gorchymyn rhannu pensiwn yn aros yr un fath, efallai y bydd y swm gwirioneddol a gredydwyd i'r aelod credyd pensiwn wedi bod yn wahanol. Ar gyfer tegwch ymhlith y ddwy ochr, bydd pob PCM yn cael CETV newydd wedi'i gyfrifo a'i gymharu â'r PSO gwreiddiol gydag unrhyw symiau ychwanegol yn cael eu talu drwy gredyd cynllun. Os nad oes gan PCM unrhyw fuddion mewn cynllun penodol, nid yw'r rhwymedi'n gallu dyrannu buddion iddynt yn y cynllun hwnnw gan nad hwn oedd dyfarniad y llys yn ystod yr achos ysgariad y gwnaed y PSO gwreiddiol ynddo. Nid yw penderfyniad gwreiddiol y llys yn cael ei ailystyried.

80. Yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail oedran. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl. Y prif reswm am hyn yw y bydd y PCM yn derbyn y CETV ychwanegol drwy gredyd cynllun mewn modd sy'n ymwneud â'r buddion a ddyfarnwyd iddynt gan y llysoedd yn ystod achos ysgariad PSO.

## Rhyw

81. Mae'r siart isod yn dangos rhyw aelodau o fewn y TPS a'r PCMs sydd o fewn cwmpas ar gyfer y rhwymedi:



**Cyfanswm Aelodau TPS; PDM; PCM**

— Gwryw — Benyw

**Ffigur 8: Proffiliau Rhyw PDM a PCM**

82. Yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd, gall yr Adran weld bod gwrywod yn ymddangos yn amlwg fel PDMs o'u cymharu â chyfansoddiad aelodaeth y cynllun ac felly'r rhai sydd o fewn cwmpas y rhwymedi. Felly cymerodd ein dadansoddiad hyn i ystyriaeth, ond ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y diwygiadau yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail rhyw. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

# Hyblygrwydd

83. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 98-123 a 226-246 o'r ddogfen ymgynghori.

84. Mae [Adran 20](#) y PSPJOA yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau wneud darpariaeth ynghylch taliadau cyfraniadau gwirfoddol presennol a sut y caiff y rhain eu trin. Mae [Adran 25](#) yn darparu y gall aelodau brynu hyblygrwydd yn nhrefniant y cynllun etifeddiaeth yn ôl-weithredol pe byddent wedi gwneud hynny heb y gwahaniaethu.

85. Mae cyfarwyddiadau HMT yn darparu bod yn rhaid i gynlluniau benderfynu sut y gall fod angen amrywio, neu ddileu hyblygrwydd, er mwyn caniatáu i aelodau gael eu rhoi yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi heb y gwahaniaethu. Ar gyfer aelodau'r TPS sydd eisoes wedi prynu hyblygrwydd, mae effeithiau gwahanol wrth ddirwyn yn ôl oherwydd bod yr hyblygrwydd sydd ar gael yn amrywio yn dibynnu a yw person yn aelod o'r cynllun etifeddiaeth neu ddiwygiedig.

86. Mae'r diwygiadau yn effeithio ar dri hyblygrwydd:

Hyblygrwydd	Cynllun(iau)
Buddiannau Pensiwn Ychwanegol (APB)	Etifeddiaeth a Diwygiedig
Cronni Cyflymach (FA)	Diwygiedig
Prynu Allan Gostyngiad Ymddeoliad Cynnar (Prynu Allan)	Diwygiedig

**Tabl 15: Opsiynau Hyblygrwydd o fewn y Cynlluniau Etifeddiaeth a Diwygiedig**

87. Pan gaiff gwasanaeth cynllun diwygiedig ei ddirwyn yn ôl i'r cynllun etifeddiaeth, ni ellir cynnal unrhyw hyblygrwydd cynllun diwygiedig. Rhoddir y tri opsiwn a ganlyn i bob aelod sydd â hyblygrwydd cynllun diwygiedig ac sydd angen dirwyn yn ôl i'r cynllun etifeddiaeth:

- 1) Bydd cyfraniadau a dalwyd eisoes yn cael eu hail-greu fel APB y cynllun etifeddiaeth.
- 2) Canslo'r dewis gwreiddiol, a thrwy hynny gael ad-daliad o unrhyw daliadau a wnaed, fel iawndal.
- 3) Cyfraniadau i'w dal tan benderfyniad neu ddewis DCU a'u defnyddio ar gyfer prynu hyblygrwydd y cynllun diwygiedig gwreiddiol, os dewisir cynllun diwygiedig yn DCU, neu ei ad-dalu fel iawndal os caiff gwasanaeth y cynllun etifeddiaeth ei ddewis.


## Oedran

88. Mae argaeledd hyblygrwydd rhwng y cynlluniau yn effeithio'n fwy ar aelodau sydd yn y cynllun diwygiedig na'r rhai sydd yn y cynllun etifeddiaeth ar hyn o bryd. Mae hyn oherwydd bod APB ar gael yn y ddau gynllun sy'n golygu y gall aelodau'r cynllun etifeddiaeth gadw eu APB etifeddiaeth presennol neu ailadeiladu i APB o dan reolau'r cynllun diwygiedig. Mae rhai aelodau wedi prynu hyblygrwydd yn y cynllun diwygiedig yn ystod y cyfnod rhwymedi ond, ar ôl dirwyn yn ôl ac yn unol ag adran 2(1) o'r Ddeddf, byddant yn cael eu trin fel petaent bob amser yn aelodau o'r cynllun etifeddiaeth. Rhaid felly rheoli unrhyw ddewisiadau cynllun diwygiedig.
89. Mae'r Ddeddf yn dileu'r hawliau sy'n deillio o hyblygrwydd cynllun diwygiedig a gymerwyd yn ystod y cyfnod rhwymedi ac mae'r rheoliadau drafft yn darparu ar gyfer cynnig hawliau amgen i aelodau yn y cynllun etifeddiaeth neu iawndal am y cyfraniadau ychwanegol hynny a wnaed.
90. Mae aelodau cynllun diwygiedig yn aelodau heb warchodaeth neu'n aelodau gyda gwarchodaeth daprog sydd felly'n cael effeithiau cysylltiedig ag oedran o ystyried y mathau o warchodaeth sy'n cyfateb yn uniongyrchol i oedran. Er bod APB ar gael yn y ddau gynllun, mae gwahaniaethau mewn NPA rhwng y cynlluniau a allai effeithio ar ddewis yr aelodau o ran prynu'r hyblygrwydd ai peidio.
91. O ganlyniad, mae'r diwygiadau yn effeithio'n fwy ar aelodau iau o'r cynllun, ond mae'r opsiynau a gaiff yr aelodau hyn yn golygu y gellir eu rhoi yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynndi henb y gwahaniaethu o dan opsiynau 1 a 2 y cyfeirir ati ym mharagraff 85. Mae Opsiwn 1 yn caniatáu iddynt barhau i gynnal hyblygrwydd cynllun a gaiff ei ailadeiladu i'r hyblygrwydd sydd ar gael yn y cynllun etifeddiaeth tra bod opsiwn 2 yn caniatáu i'r aelod gymryd ad-daliad os na fyddai wedi dymuno cymryd hyblygrwydd yr APB. Mae opsiwn 3 ym mharagraff 85 yn caniatáu i'r aelodau hyn aros yn eu sefyllfa bresennol gan fod y gwahaniaethu wedi'u gosod yn y cynllun diwygiedig yn gynt nag sydd angen. Gall yr aelod felly benderfynu a yw am gadw'r hyblygrwydd a brynwyd ganddo pan fydd yn gwneud ei benderfyniad neu ddewis DCU sy'n ymwneud â'r un ystyriaethau cydraddoldeb ag y cyfeiriwyd atynt yn [ymgyngoriad](#) HMT lle mae aelodau'n gwybod mwy am eu cynlluniau ymddeol ac yn defnyddio llai o dybiaethau i wneud eu dewisiadau buddion.
92. Mae effaith oedran uniongyrchol ar gyfer aelodau sydd dros eu NPAs neu dros 65 oed mewn perthynas ag APB. Os yw'r aelod wedi mynd y tu hwnt i NPA60, bydd ei APB yn seiliedig ar oedran pensiwn o 65 a'r ffactorau priodol, ond bydd taliadau unrhyw aelod sydd dros 65 oed yn cael eu had-dalu. Mae'r rheolau hyn yn unol â'r rheoliadau presennol ac felly'n cadw triniaeth gyfartal ymhlith

aelodau o fewn cwmpas y rhwymedi a'r tu allan iddo, ond mae gan bawb fynediad at yr un trefniadau cynllun.

## Rhyw

93. Mae'r siart isod yn dangos rhyw aelodau sydd ag hyblygrwydd, wedi'u rhannu yn ôl eu math o warchodaeth:



**Cyfanswm; Gwarchodaeth Llawn; Gwarchodaeth Daprog; Heb Warchodaeth**

**Gwryw Benyw**

**Ffigur 9: Proffiliau Rhyw Aelodau gyda Hyblygrwydd yn ôl Math o Warchodaeth**

94. Mae cyfran uwch o aelodau gwryw heb warchodaeth sy'n dal hyblygrwydd o gymharu ag aelodaeth gyffredinol o'r cynllun, ond mae aelodau gwarchodaeth llawn a gwarchodaeth daprog yn gynrychioliadol. Gall unrhyw aelod ddewis cymryd hyblygrwydd beth bynnag fo'i ryw.

95. Mae'r Adran wedi ystyried effaith cydraddoldeb bosibl y diwygiadau ynghylch y nodwedd hon ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn y grŵp penodol hwn. Mae'r Adran yn nodi bod gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail rhyw wedi'i nodi ym nyfarniad gwreiddiol McCloud ar draws y sector cyhoeddus oherwydd y cynnydd diweddar mewn gweithwyr benyw yn y sector cyhoeddus. Ac eto, mewn perthynas â'r gweithlu addysgu yn [Lloegr](#), mae hyn wedi bod yn gyson ac yn bennaf yn fenyw; 75.5% ym mis Tachwedd 2021 (2021/22), i fyny o 74.4% yn 2010/11. Oherwydd hyn, nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl ac felly daw'r Adran i'r casgliad nad oes unrhyw effaith anghymesur ar y grŵp hwn.



## Hil (Ethnigrwydd)

96. Mae data a gafwyd o'r Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion ar gyfer [Cymru](#) a [Lloegr](#) yn dangos bod 14.9% o athrawon yn Lloegr ac 1.1% yng Nghymru wedi nodi eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol. Yn seiliedig ar [Gyfrifiad 2011](#), nododd 20.2% o Loegr a 6.8% o Gymru eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol er mwyn caniatáu cymhariaeth yn erbyn y Gweithlu Ysgolion. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn y grŵp penodol hwn. Eto i gyd, mae ein dadansoddiad wedi nodi gwahaniaethu anuniongyrchol posibl a'r prif sail ar gyfer y casgliad hwn yw, yn unol ag achos McCloud, bod amrywiaeth ethnig y gweithlu addysgu wedi cynyddu o 11.2% yn Lloegr ers 2010/11. Gallai hyn awgrymu bod aelodau heb warchodaeth efallai yn fwy tebygol o fod mewn lleiafrif ethnig. Serch hynny, gan fod angen rhoi aelodau heb warchodaeth yn y sefyllfa gywir heb y gwahaniaethu a bod y diwygiadau'n berthnasol beth bynnag fo hil unigolyn, nid oes unrhyw effaith anghymesur ar y grŵp hwn. Mae angen y driniaeth wahaniaethol ar sail oedran, ac yn anuniongyrchol ar hil, i ddileu'r gwahaniaethu anghyfreithlon a nodwyd.

## Penderfyniadau Wrth Gefn

97. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 310-311 o'r ddogfen ymgynghori.
98. Yn unol â gweithredu ail gam y rhwymedi o 1 Hydref 2023, bydd proses benderfyniadau wrth gefn yn cael ei chyflwyno i ystyried unrhyw hawliadau posibl gan aelodau a allai arddangos y byddent wedi gwneud dewisiadau eraill neu wedi cymryd camau eraill pe byddai'r gwahaniaethu wedi'i nodi heb ddigwydd. Bydd hyn yn sicrhau bod dull teg a chyson yn cael ei ddefnyddio.
99. Bydd y wefan TPS yn cael ei diweddarau i nodi'r broses ar gyfer gwneud hawliad penderfyniad wrth gefn a bydd yn cynnwys y ffurflen gais berthnasol i'w chwblhau. Bydd hefyd yn cynnwys manylion y broses apelio os oes angen.

## Oedran

100. Gallai unrhyw aelod cymwys wneud CDC, ac mae'r aelodau cymwys yn amrywio o ran oedran fel y gwelir yn **Nhablau 4-6**. Mae'r prosesau presennol, busnes fel arfer, yn parhau yn lle hawliadau'n cael eu gwneud ar-lein neu drwy'r post. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail oedran. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Rhyw

101. Yn yr un modd, mae rhyw'r aelodau o fewn cwmpas y rhwymedi ac felly mae'r gallu i gyflwyno CDC yn amrywio, yn unol â Thablau 4-6. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail rhyw. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Gwasanaeth Athrawon Dros Ben

102. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 179-187 a 300-309 o'r ddogfen ymgynghori.
103. Pan fo gan aelodau gyflogaeth addysgu ychwanegol i gyflogaeth addysgu amser llawn, nid yw'n bensiynadwy yng nghynllun etifeddiaeth y TPS. Cyfeirir at y gwasanaeth amhensiynadwy hwn fel Gwasanaeth Athrawon Dros Ben yn yr EIA hwn.
104. Gall Gwasanaeth Athrawon Dros Ben fod yn bensiynadwy yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) os oedd cyflogwr yr aelod ar y pryd hefyd yn gyflogwr derbyniol i'r LGPS. Lle mae gan aelod Wasanaeth Athrawon Dros Ben ac nad oedd ei gyflogwr yn gyflogwr LGPS, nid yw'r gwasanaeth yn bensiynadwy yng nghynllun etifeddiaeth y TPS na'r LGPS.
105. Er bod Gwasanaeth Athrawon Dros Ben yn bensiynadwy yng nghynllun diwygiedig y TPS, bydd symud gwasanaeth adferadwy yn ôl o'r cynllun diwygiedig i'r cynllun etifeddiaeth ar 1 Hydref 2023 hefyd yn effeithio ar y ffordd y caiff y gwasanaeth hwnnw ei drin.
106. O ystyried cymhlethdod gweinyddol a chyfreithiol y cysylltiad TPS / LGPS, sefydlodd yr Adran weithgor i nodi a dadansoddi'r holl opsiynau a oedd ar gael i unioni gwahaniaethu ar sail oed McCloud. Roedd y gweithgor yn cynnwys y partïon canlynol:
- Yr Adran Addysg
  - Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (a elwid gynt yn Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol)
  - Trysorlys EF
  - Asiantaeth Pensiynau Cyhoeddus yr Alban
  - Pensiynau Athrawon Capita
  - Cymdeithas Llywodraeth Leol
  - Gweinyddwyr Cronfa LGPS
107. Nod y gweithgor oedd nodi'r dull a fyddai'n rhoi'r aelodau agosaf yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi heb y gwahaniaethu. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau nad oedd unrhyw estyniad i'r gwahaniaethu, a fyddai'n annheg ac yn anghyfiawn i aelodau'r cynllun.
108. Mae'r ymagwedd a nodwyd at y mater hwn fel a ganlyn:

- Bydd gan aelodau heb warchodaeth a gwarchodaeth daprog nad ydynt wedi cymryd buddion y cynllun cyn 1 Hydref 2023 wasanaeth cynllun diwygiedig wedi'i ddirwyn yn ôl i'r cynllun etifeddiaeth. Gan nad yw contractau Gwasanaeth Athrawon Dros Ben yn bensiynadwy yn y cynllun TPS etifeddiaeth ni ellir eu dirwyn yn ôl.
- Mae Gwasanaeth Athrawon Dros Ben wedi'i gynnwys yn y diffiniad o wasanaeth adferadwy sy'n caniatáu iddo gael ei ddirwyn yn ôl i'r cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus priodol (h.y., yr LGPS) lle bo'n briodol. Bydd y dirwyn hwn yn ôl yn digwydd yn awtomatig os byddai'r aelod wedi bod yn gymwys i ymuno â'r LGPS (h.y., roedd ei gyflogwr yn gyflogwr LGPS am y cyfnod cyflogaeth perthnasol). Yna bydd y Gwasanaeth Athrawon Dros Ben yn ddarostyngedig i reolau LGPS.
- Lle nad oedd Gwasanaeth Athrawon Dros Ben aelod yn bensiynadwy yn yr LGPS ychwaith (h.y., oherwydd nad oedd ei gyflogwr yn gyflogwr a dderbyniwyd i'r LGPS), byddai gan yr aelod hawl i gael iawndal am ei gyfraniadau fel aelod i'r Gwasanaeth Athrawon Ychwanegol.
- Pan symudir Gwasanaeth Athrawon Dros ben i'r CPLIL, bydd gan aelodau gweithredol yr opsiwn o dan brosesau 'busnes fel arfer' i drosglwyddo eu gwasanaeth CPLIL i gynllun diwygiedig y TPS. Byddai gan aelodau 12 mis o gyhoeddi eu RSS i drosglwyddo gwasanaeth CPLIL i'r cynllun diwygiedig. Nid yw'r opsiwn hwn ar gael pan fo aelod yn cymryd buddion ymdeol o'r TPS cyn cwblhau trosglwyddiad.
- Ni fydd aelodau gyda gwarchodaeth nad ydynt wedi cymryd buddion cynllun cyn 1 Hydref 2023 yn gweld unrhyw newid, gan y bydd eu gwasanaeth eisoes yn cael ei gynnal yn y cynllun priodol. Nid yw'n weinyddol bosibl cynnig gwasanaeth cyfatebol i'r aelodau hyn yn y cynllun diwygiedig pe baent yn dewis buddion cynllun diwygiedig yn eu DCU – er bod yr aelodau hyn wedi cael y dewis i drosglwyddo eu gwasanaeth i'r TPS pan gawsant eu symud i'r cynllun diwygiedig ar 1 Ebrill 2022.
- Lle mae buddion ymdeol eisoes wedi'u cymryd o'r TPS, ni fydd unrhyw newidiadau ar unwaith i fuddion sy'n cael eu talu o 1 Hydref 2023.
- Lle bu gan aelod gyda gwarchodaeth Wasanaeth Athrawon Dros Ben yn ystod y cyfnod rhwymedi bydd y gwasanaeth hwnnw naill ai wedi bod yn bensiynadwy yn yr LGPS (ac felly'n ddarostyngedig i reolau'r cynllun hwnnw) neu ddim yn bensiynadwy yn yr LGPS neu'r TPS ac ni fydd gan unrhyw gyfraniadau aelod wedi cael eu talu. Felly nid oes angen unrhyw gamau pellach mewn perthynas â Gwasanaeth Athrawon Dros ben ar gyfer aelodau gyda gwarchodaeth.
- Os oedd gan aelod gyda gwarchodaeth neu aelod gyda gwarchodaeth daprog Wasanaeth Athrawon Dros Ben yn ystod y cyfnod rhwymedi bydd eu hopsiynau Dewis Uniongyrchol yn dibynnu a oedd y gwasanaeth hwnnw yn bensiynadwy yn yr LGPS.

- Os bydd yr aelodau hyn yn gwneud penderfyniad Dewis Uniongyrchol i gymryd buddion cynllun diwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwymedi, bydd eu Gwasanaeth Athrawon Dros Ben yn cael ei gynnwys yn eu cyfrifiadau buddion cynllun diwygiedig.
- Os bydd yr aelodau hyn yn gwneud penderfyniad Dewis Uniongyrchol i gymryd buddion y cynllun etifeddiaeth am y cyfnod rhwymedi, bydd eu Gwasanaeth Athrawon Dros ben yn cael ei drin fel a ganlyn: -
  - i. Pe byddai'r Gwasanaeth Athrawon Dros ben wedi bod yn bensiynadwy yn yr LGPS ar y pryd (gan fod y cyflogwr yn gyflogwr LGPS) yna bydd y gwasanaeth hwnnw'n cael ei symud i'r LGPS ac yn cael ei drin yn unol â rheolau'r cynllun hwnnw. Bydd yr LGPS yn rhoi gwybodaeth i'r aelod am y gwasanaeth hwnnw.
  - ii. Os na fyddai'r Gwasanaeth Athrawon Dros ben wedi bod yn bensiynadwy yn yr LGPS ar y pryd (gan nad oedd y cyflogwr yn gyflogwr LGPS) ad-delir y cyfraniadau ar gyfer y gwasanaeth hwnnw fel iawndal. Bydd RSS yr aelod yn manylu ar unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r aelod neu gan yr aelod mewn perthynas â chyfraniadau a/neu fuddion sy'n cael eu tandalu neu eu gordalu.

107. Mae argaeledd trosglwyddiad ar gyfer aelodau gweithredol ar wahân i Rwymedi McCloud ac mae'n dod o dan reolau presennol (busnes fel arfer) y TPS o ganiatáu trosglwyddiad i'r cynllun o fewn 12 mis cyntaf gwasanaeth aelod. Bydd y ffenestr drosglwyddo o 12 mis yn cael ei gohirio ar gyfer aelodau heb warchodaeth ac aelodau gyda gwarchodaeth daprog nes eu bod yn derbyn eu RSS, o ystyried na allant gael mynediad i'r ffenestr o 1 Ebrill, fel yr amlygwyd yn yr adran [trosglwyddiadau](#).

## Oedran

108. Roedd aelodau gwarchodaeth llawn o fewn 10 mlynedd neu lai i NPA ar 31 Mawrth 2012 ac felly bydd unrhyw driniaeth wahaniaethol ar gyfer y garfan hon yn cael effeithiau cysylltiedig ag oedran. Mae'r dadansoddiad o'r polisi LGPS yn erbyn oedran, a'r nodweddion gwarchodedig eraill, wedi'i gwblhau gan ddefnyddio'r data sydd ar gael i'r Adran ar hyn o bryd, ond mae cyfyngiadau yn eu lle fel y darperir ar eu cyfer yn y paragraff nesaf.

109. Mae gweithgor y TPS/LGPS wedi cydweithio i gael y data perthnasol a sicrhau bod y gweithgareddau gweithredol sy'n ymwneud â Gwasanaeth Athrawon Dros Ben yn cael eu diffinio. Dim ond at ddibenion dangosol y mae data'r LGPS gan fod gwaith pellach yn mynd rhagddo i sefydlu pa aelodau fyddai'n gymwys i'w dirwyn yn ôl i'r LGPS gan nad yw pob cyflogwr yn gymwys ar gyfer neu wedi dewis ymuno â'r LGPS. Mae'r data felly'n dangos nifer yr aelodau unigryw a allai fod yn gymwys i'w dirwyn yn ôl i'r CPLIL oherwydd bod ganddynt FTE+1, ond gall aelodau ddal mwy nag un contract FTE+1 gyda chyflogwr gwahanol, neu'r un cyflogwr. Gallai fod gan aelod un contract sy'n gymwys ar

gyfer LGPS ac un nad yw'n gymwys, yn dibynnu ar statws cymhwysedd/cofrestru pob cyflogwr. Mae hyn yn golygu y bydd nifer y contractau FTE+1 i'w dirwyn yn ôl i'r LGPS yn debygol o fod yn uwch na'r niferoedd presennol a ddangosir yn Nhabl 24 isod. Gallai aelodau ddal contractau FTE+1 ar gyfer sawl blwyddyn o wasanaeth adferadwy. Bydd angen i'r gweithgor gael manylion am y blynyddoedd yr oedd cyflogwr yn gyflogwr LGPS, gan y gallent fod wedi ymuno neu adael yn ystod blynyddoedd gwasanaeth adferadwy, sydd wedyn yn effeithio ar allu'r aelodau i gael eu dirwyn yn ôl i mewn i'r LGPS. O ystyried yr heriau uchod, ni fydd yr union aelodau a chyflogwyr yr effeithir arnynt gan y mater hwn yn hysbys tan haf 2023, ond mae'r gweithgor yn mynd i'r afael â'r heriau hyn ar hyn o byd.

110. O gofio'r hyn uchod, mae'r tabl isod yn dangos nifer yr aelodau unigryw sydd â gwasanaeth etifeddiaeth, gwasanaeth diwygiedig, neu wasanaeth yn y ddau gynllun yn ystod y cyfnod rhwymedi, lle mae gan yr aelod gontract addysgu amser llawn ynghyd â chontract addysgu rhan amser. (FTE+1) ar yr un pryd

	Gwasanaeth Cynllun Etifeddiaeth		Gwasanaeth Cynllun Diwygiedig		Etifeddiaeth a Diwygiedig		Cyfanswm
	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw	
<25	0	0	0	0	0	0	0
25-29	0	0	1	2	0	0	3
30-34	0	0	208	817	0	0	1,025
35-39	0	0	777	2,484	0	1	3,262
40-44	0	0	1,039	2,856	0	0	3,895
45-49	0	0	1,021	3,010	0	0	4,031
50-54	0	0	1,059	2,824	0	0	3,883
55-59	11	32	698	1,681	1	5	2,428
60-64	19	38	194	336	0	4	591
65-69	4	8	118	164	0	1	295
70-74	2	1	36	36	0	0	75
75-79	1	0	6	2	0	0	9
80-82	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>37</b>	<b>79</b>	<b>5,157</b>	<b>14,212</b>	<b>1</b>	<b>11</b>	<b>19,497</b>

Tabl 16: Aelodau sydd â chontract FTE+1

111. Ni fydd aelodau gyda gwarchodaeth llawn yn cael opsiwn i gymryd eu buddion FTE+1 i mewn i'r cynllun diwygiedig. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gyfiawnhad dros y driniaeth wahaniaethol hon, yn seiliedig ar statws yr aelodau, a'r opsiynau sydd gan aelodau o ran eu FTE+1 yn y TPS:

	Nifer yr Aelodau	Cyfiawnhad
<b>Pob un</b>	112,169	Mae gwasanaeth Aelodau yn eistedd yn y cynlluniau cywir, ac maent yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi heb y gwahaniaethu, sef ffocws opsiwn 2.

<b>Gweithredol</b>	11,441 (10%)	Bydd unrhyw wasanaeth FTE+1 yn aros yn yr LGPS oni bai bod yr aelod yn gofyn am drosglwyddo i'r cynllun diwygiedig. Mae gan aelodau'r opsiwn o drosglwyddo unrhyw fuddion a gronnwyd yn yr LGPS i'r cynllun diwygiedig gan ddefnyddio'r rheolau trosglwyddo presennol (busnes fel arfer), ond cyfyngir amser ar hyn i'r 12 mis cyntaf ar ôl iddynt ymuno â'r cynllun diwygiedig. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i holl wasanaethau LGPS gael eu trosglwyddo i'r cynllun diwygiedig ac nid yw wedi'i gyfyngu i'r gwasanaeth LGPS a gronnwyd o fewn blynyddoedd gwasanaeth adferadwy ar gyfer FTE+1. Byddai hyn yn eu rhoi mewn sefyllfa debyg i aelodau heb warchodaeth.
<b>Gohiriedig</b>	3,719 (3%)	Bydd aelodau'n aros yn yr LGPS am eu gwasanaeth FTE+1 adferadwy, ond os byddant yn dychwelyd i gyflogaeth bensignadwy ar ôl 1 Ebrill 2022, bydd ganddynt fynediad i'r un cyfnod o drosglwyddo mewn ffenestr 12 mis â'r aelodau gweithredol uchod. Fel arall, bydd eu buddion FTE+1 yn aros yn yr LGPS.
<b>Wedi Ymddeol ac Ymadawedig</b>	97,009 (86%)	Bydd unrhyw wasanaeth FTE+1 yn aros yn yr LGPS ac ni ellir ei gynnwys yn y cynllun diwygiedig. Byddai anawsterau gweinyddol yn hynod gymhleth a beichus i geisio eu goresgyn, er enghraifft, efallai bod buddion aelodau wedi crisialu mewn perthynas â'u gwasanaeth TPS (NPA 60) ond heb grisialu mewn perthynas â'u gwasanaeth LGPS (NPA 65). Ar gyfer aelodau sydd wedi marw, gallai fod gwahanol fuddiolwyr ar gyfer pob un o'r cynlluniau. Nid yw'r cymhlethdodau hyn yn codi mewn perthynas ag aelodau sydd wedi ymddeol heb warchodaeth. O fewn y cynllun LGPS, mae gan aelodau sydd wedi ymddeol warchodaeth sylfaenol sy'n rhoi'r 'uwch o' iddynt o ran buddion cynllun etifeddiaeth neu gynllun diwygiedig ar gyfer eu gwasanaeth adferadwy.

**Tabl 17: Tabl Effaith Aelodau gyda Gwarchodaeth Llawn**


112. Gan fod aelodau gyda gwarchodaeth eisoes yn y sefyllfa gywir heb y gwahaniaethu, fel arfer ni fyddent byth wedi cael yr opsiwn i gymryd unrhyw fuddion FTE+1 cyn 1 Ebrill 2022 i mewn i'r cynllun diwygiedig. Ar gyfer aelodau heb warchodaeth sy'n gymwys ar gyfer yr LGPS, ni fyddent ychwaith yn gallu cymryd unrhyw fuddion FTE+1 cyn 1 Ebrill 2022 i'r cynllun diwygiedig gan y byddai'r cyfraniadau hyn yn cael eu talu i'r gronfa LGPS berthnasol.

113. Yn groes i hyn, byddai aelodau heb warchodaeth nad ydynt yn gymwys i gael eu dirwyn yn ôl i'r LGPS yn gallu cadw eu gwasanaeth FTE+1 am y cyfnod rhwymedi yn y cynllun diwygiedig hyd at eu DCU. Os bydd yr aelod yn dewis gwasanaeth cynllun etifeddiaeth yn ei DCU, byddai unrhyw gyfraniadau FTE+1 yn cael eu had-dalu gan olygu na fyddai'r buddion hyn ar gael yn y cynllun etifeddiaeth ond yn cael eu cadw pe byddai'r aelod yn dewis gwasanaeth cynllun diwygiedig ar DCU.

114. Byddai dileu'r opsiwn hwn oddi ar aelodau heb warchodaeth yn annheg ac yn anghyfiawn, fel y trafodwyd yn Opsiwn 1, gan y byddem yn dileu budd sy'n bodoli eisoes. Mae'r Adran felly o'r farn y gellir cyfiawnhau'r driniaeth wahaniaethol hon ar sail oedran a'i bod yn ffordd gymesur o gyflawni'r nod cyffredinol o ddileu'r gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oed.

## Rhyw

115. Ar gyfer rhyw y rhai sydd ag FTE+1, mae hyn yn gymharol debyg i aelodaeth y TPS, ac eithrio aelodau â gwasanaeth cymysg:



**Cyfanswm Aelodau TPS; Gwasanaeth Etifeddiath; Gwasanaeth Diwygiedig; Gwasanaeth Cymysg**

**— Gwryw — Benyw**

**Ffigur 10: Proffiliau Rhyw ar gyfer Aelodau sydd â Chontract FTE+1**

116. Gan mai dim ond 12 aelod sydd â gwasanaeth cymysg wedi'i nodi fel rhai ag FTE+1, ni fyddai cymharu'r dadansoddiad rhyw yn erbyn y bariau eraill yn gynrychioliadol o ystyried y grŵp bach o aelodau yr effeithir arnynt. Felly ni ellir defnyddio hwn i gael tuedd graff i ryw aelodau yr effeithir arnynt ar eu pen eu hunain a rhaid edrych arno ar y cyd â'r holl aelodau yr effeithir arnynt gan fater gwasanaeth dros benTPS CPLIL.

117. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn y grŵp penodol hwn. Mae'r Adran yn nodi bod gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail rhyw, yn gysylltiedig â'r gwahaniaethu ar sail oed, wedi'i nodi ym nyfarniad gwreiddiol McCloud ar draws y sector cyhoeddus oherwydd y cynnydd diweddar mewn gweithwyr benywaidd yn y sector cyhoeddus. Ac eto, mewn perthynas â'r gweithlu addysgu yn Lloegr, mae hyn wedi bod yn gyson ac yn bennaf yn fenywod; 75.5% ym mis Tachwedd 2021 (2021/22), i fyny o 74.4% yn 2010/11. Oherwydd hyn, nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol



gwirioneddol neu bosibl ac felly daw'r Adran i'r casgliad nad oes unrhyw effaith anghymesur ar y grŵp hwn.

## Hil (Ethnigrwydd)

118. Mae data a gafwyd o'r Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion ar gyfer [Cymru](#) a [Lloegr](#) yn dangos bod 14.9% o athrawon yn Lloegr ac 1.1% yng Nghymru wedi nodi eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol. Yn seiliedig ar [Gyfrifiad 2011](#), nododd 20.2% o Loegr a 6.8% o Gymru eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol er mwyn caniatáu cymhariaeth yn erbyn y Gweithlu Ysgolion. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn y grŵp penodol hwn. Eto i gyd, mae ein dadansoddiad wedi nodi gwahaniaethu anuniongyrchol posibl a'r prif sail ar gyfer y casgliad hwn yw, yn unol â dyfarniad gwreiddiol McCloud, bod amrywiaeth ethnig y gweithlu addysgu wedi cynyddu o 11.2% yn Lloegr ers 2010/11. Gallai hyn awgrymu efallai bod aelodau gyda gwarchodaeth yn llai tebygol o fod mewn lleiafrif ethnig. Er, gan fod aelodau gyda gwarchodaeth yn y sefyllfa gywir heb wahaniaethu a bod y diwygiadau'n berthnasol waeth beth fo hil unigolyn, nid oes unrhyw effaith anghymesur ar y grŵp hwn. Mae'r driniaeth wahaniaethol ar sail oedran, ac yn anuniongyrchol ar hil, yn cynrychioli dull cymesur o gyflawni'r nod cyfreithlon.

## Iawndal (Ad-dalu Cyfraniadau)

119. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 167-169 a 288-290 o'r ddogfen ymgynghori.

120. Mae [Adrannau 15-17](#) o'r PSPJOA yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ailedrych ar y cyfrifiadau ar gyfer cyfraniadau a darparu iawndal pan fo aelod wedi gordalu cyfraniadau. Byddant yn derbyn unrhyw gyfraniadau a ordalwyd fel iawndal. Mae'r PSPJOA yn cynnwys pwerau i leihau neu ildio rhwymedigaethau o dan adran 18 y gall y TPS geisio eu defnyddio – trafodir hyn yn adran [De-Minimis a Disgresiynau Ariannol](#) yr EIA hwn. Pan fydd ar aelod swm i'r cynllun am gyfraniadau a dandalwyd neu fuddion a ordalwyd, bydd y gweinyddwr yn anfon hysbysiad ysgrifenedig yn hysbysu'r aelod o'r rhwymedigaeth. Bydd yn ofynnol i'r aelod dalu'r swm cyn diwedd 6 mis gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl i'r aelod dderbyn y rhybudd. Drwy gytundeb, gellir talu'r rhwymedigaeth yn llawn, drwy randaliadau, neu drwy ddiwyniad o fuddion yr aelod. Os bydd yr aelod yn methu â thalu unrhyw swm drwy gyfandaliad neu gynllun rhandaliadau, gall y cynllun benderfynu bod symiau i'w tynnu o fuddion yr aelod.

121. Mae'r Adran wedi penderfynu caniatáu i aelodau ddod i gytundeb â'r cynllun i iawndal am gywiro cyfraniadau a ordalwyd ar unwaith i'w hepgor nes iddynt wneud eu DCU. Byddai hyn yn atal aelodau rhag cael cywiriad dwbl o gyfraniadau lle maent yn rhagweld dewis ar gyfer buddion cynllun diwygiedig ar adeg ymddeol. Yn lle derbyn iawndal am unrhyw addasiadau i wasanaeth y cynllun diwygiedig ar y pwynt dirwyn yn ôl, megis goramser neu wasanaeth athro dros ben nad yw'n bensiynadwy (ETS)<sup>30</sup>, mae'r TPS yn bwriadu rhoi opsiwn i'r aelod ildio'r iawndal am y cyfraniadau gormodol i'r pwynt y bydd yn gwneud ei ddewis DCU. Gallai cywiriad dwbl posibl o'r cyfraniadau a dalwyd ddigwydd, lle mae'r aelod yn derbyn iawndal wrth ddirwyn yn ôl y byddai'n ofynnol iddo ei ad-dalu ar DCU, os yw'n dewis gwasanaeth cynllun diwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwymedi. Byddai'r opsiwn ar gyfer dal cyfraniadau yn y cynllun yn atal y cywiriad dwbl hwn mewn cyfraniadau rhag digwydd.

## Oedran

122. Gan fod y PSPJOA yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau drin pob gwasanaeth adferadwy fel pe byddai'n bensiynadwy o dan y cynllun etifeddiaeth, mae hyn yn effeithio

---

<sup>30</sup> Lle mae aelod yn dal contract rhan amser yn ychwanegol at contract llawn amser. Dim ond y contract llawn amser sy'n bensiynadwy o dan y cynllun etifeddiaeth, ond mae pob contract yn bensiynadwy yn y cynllun diwygiedig.

ar oedran o ran pa aelodau a allai fod yn destun cyfraniadau sy'n cael eu newid. Arhosodd aelodau gyda gwarchodaeth yn y cynllun etifeddiaeth tra bydd aelodau gyda gwarchodaeth ac aelodau heb warchodaeth yn cael eu gwasanaeth cynllun diwygiedig wedi'i ddirwyn yn ôl i'r cynllun etifeddiaeth. Byddai angen addasiad cyfraniad felly ar gyfer unrhyw aelod heb warchodaeth neu aelod gyda gwarchodaeth daprog a gwblhaodd oramser neu ETS tra na fydd aelodau gyda gwarchodaeth yn gweld unrhyw addasiad o'r fath.

123. Yn dilyn hynny, mae'r aelodau hynny a allai ddewis ildio'r taliad iawndal hyd nes DCU yn aelodau iau o'r cynllun gan y byddent wedi bod yn aelodau heb warchodaeth ddiamddiffyn neu'n aelodau gyda gwarchodaeth daprog i ddechrau ac felly maent yn fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y polisi iawndal. Mae angen y driniaeth wahaniaethol ar sail oedran i ddileu'r gwahaniaethu anghyfreithlon a nodwyd yn McCloud a rhoi aelodau yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi.

## Rhyw

124. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ar gydraddoldeb ynghylch y nodwedd hon ac wedi dod i'r casgliad nad yw diwygiadau yn gwahaniaethu yn erbyn y grŵp penodol hwn. Mae'r Adran yn nodi bod gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail rhyw wedi'i nodi ym nyfarniad gwreiddiol McCloud ar draws y sector cyhoeddus oherwydd y cynnydd diweddar mewn gweithwyr benywaidd yn y sector cyhoeddus. Ac eto, mewn perthynas â'r gweithlu addysgu yn Lloegr, mae hyn wedi bod yn gyson ac yn bennaf yn fenywod; 75.5% ym mis Tachwedd 2021 (2021/22), i fyny o 74.4% yn 2010/11. Oherwydd hyn, nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl ac felly daw'r Adran i'r casgliad nad oes unrhyw effaith anghymesur ar y grŵp hwn.

## Hil (Ethnigrwydd)

125. Mae data a gafwyd o'r Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion ar gyfer [Cymru](#) a [Lloegr](#) yn dangos bod 14.9% o athrawon yn Lloegr ac 1.1% yng Nghymru wedi nodi eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol. Yn seiliedig ar [Gyfrifiad 2011](#), nododd 20.2% o Loegr a 6.8% o Gymru eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol er mwyn caniatáu cymhariaeth yn erbyn y Gweithlu Ysgolion. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ar gydraddoldeb ynghylch y nodwedd hon ac wedi dod i'r casgliad nad yw diwygiadau yn gwahaniaethu yn erbyn y grŵp penodol hwn. Eto i gyd, mae ein dadansoddiad wedi nodi gwahaniaethu effaith anuniongyrchol posibl a'r brif sail ar gyfer y casgliad hwn yw, yn unol â dyfarniad gwreiddiol McCloud, bod amrywiaeth ethnig y gweithlu addysgu wedi cynyddu o 11.2% yn Lloegr ers 2010/11. Gallai hyn awgrymu bod aelodau gyda gwarchodaeth efallai yn llai tebygol o fod mewn lleiafrif ethnig o gymharu ag aelodau heb warchodaeth ac aelodau gyda gwarchodaeth daprog. Gan fod y diwygiadau yn berthnasol, beth bynnag fo hil unigolyn, nid yw'r Adran yn credu bod effaith anghymesur ar y grŵp hwn. Mae angen y

driniaeth wahaniaethol ar sail oedran, ac yn anuniongyrchol ar hil, i ddileu'r gwahaniaethu anghyfreithlon a nodwyd.

## De-Minimis a Disgresiynau Cyllid

126. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 170-174 a 291 o'r ddogfen ymgynghori.

127. Oherwydd amrywiadau yn y diffiniad o gyflogaeth bensiyndwy rhwng y cynllun etifeddiaeth a'r cynllun diwygiedig, mae'n bosibl y bydd gordaliad neu dandaliad o gyfraniadau aelodau neu daliadau pensiwn wrth ddirwyn yn ôl i'r cynllun etifeddiaeth. Mae'r disgresiynau de-minimis a chyllid presennol yn aros yr un fath â'r prosesau cyfredol (busnes fel arfer), sy'n cynnwys argaeledd cynlluniau talu ar gyfer adennill unrhyw arian a dandalwyd neu gyfandaliad unigol.


128. Mae [Adran 18](#) o'r PSPJOA yn galluogi cynlluniau i leihau neu ildio atebolrwydd dyled aelod i'r cynllun pan fo gordaliad wedi digwydd. Er mai dim ond fesul achos unigol y gellir defnyddio adran 18, gellir cymhwyso hyn i leihau neu ildio atebolrwydd carfan o aelodau, megis pensiynwyr gyda gwarchodaeth daprog na allant gadw eu gwasanaeth cymysg am y cyfnod rhwymedi. Gall fod yn bosibl mewn achosion eithafol y gallai'r ddau opsiwn a gyflwynir i aelod gyda gwarchodaeth daprog arwain at fuddion is na'r rhai sydd eisoes yn cael eu talu, gan achosi cyfanswm gordaliad na ellir ei osgoi. Fel yn Nhabl 5, mae 20,534 o aelodau gyda gwarchodaeth daprog sydd wedi crisialu eu buddion ar, neu cyn, 3 Ebrill 2022 (mae esboniad o'r dyddiad hwn ym mharagraff 18). Gan ei bod yn bosibl y bydd sefyllfa gordaliad yn anochel oherwydd yr anallu i gadw gwasanaeth cymysg am y cyfnod rhwymedi, gallai fod yn annheg disgwyl i'r aelodau hyn ad-dalu unrhyw hawl a ordalwyd tra'n derbyn pensiwn is yn y dyfodol.

## Oedran

129. Dyfarnwyd gwarchodaeth daprog i aelodau a oedd rhwng 10 a 13.5 mlynedd o NPA ar 1 Ebrill 2012. Gan fod y warchodaeth gychwynnol hon yn seiliedig ar oedran, mae effaith adran 18 ar aelodau gyda gwarchodaeth daprog yn cael effeithiau cysylltiedig ag oedran, ond mae'r anallu i gadw gwasanaeth cymysg ar gyfer y cyfnod rhwymedi yn gam cymesur i ddileu'r gwahaniaethu a nodwyd yn achos McCloud. O ystyried hyn, mae'n debygol y bydd adran 18 yn cael ei defnyddio ar garfannau penodol o aelodau, megis aelodau gwarchodaeth daprog, sy'n cael effeithiau cysylltiedig ag oedran. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ar gydraddoldeb ynghylch y nodwedd hon ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail oedran gan y gellid defnyddio a18 ar gyfer unrhyw aelod. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

# Rhyw

130. Mae'r siart isod yn dangos rhyw aelodau sy'n bensiynwyr o fewn y TPS o gymharu â phensiynwyr gyda gwarchodaeth daprog:



**Cyfanswm Aelodau TPS; Pensiynwyr gyda Gwarchodaeth Daprog**

**Gwryw**    **Benyw**

**Ffigur 11: Proffiliau Rhyw Pensiynwyr TPS a Phensiynwyr gyda Gwarchodaeth Daprog**

131. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ar gydraddoldeb ynghylch y nodwedd hon ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail rhyw. Mae hyn oherwydd y data presennol sy'n dangos bod rhyw pensiynwyr gyda gwarchodaeth daprog yn gymharol debyg i bensiynwyr o fewn y cynllun. O ganlyniad, os yw'r garfan hon o aelodau yn destun defnydd amlach o a18 byddai hyn yn effeithio ar aelodau o'r ddau ryw mewn ffordd sy'n adlewyrchu cyfansoddiad aelodaeth y TPS. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Treth a Llog

132. Please read this section in conjunction with paragraphs 165-166, 281-282 and 312 of the consultation document.

133. Mae treth a llog yn berthnasol, lle bo'n gymwys, i rwymedi McCloud gan eu bod yn gweithredu i roi aelodau yn ôl yn y sefyllfa y byddent wedi bod yndi heb y gwahaniaethu. O fewn ymgynghoriadau blaenorol HMT, mae'r ddwy elfen wedi'u cwmpasu ac ymdrinnir â threth hefyd yn AEA PSPJOA. Rhoddodd [Adran 24](#) o PSPJOA y pŵer i gynlluniau wneud darpariaethau ynghylch colledion treth a allai fod wedi digwydd oherwydd natur ôl-weithredol y rhwymedi. Er bod [Adran 26](#) o'r PSPJOA yn ymdrin â llog, nid yw wedi'i ragnodi'n helaeth ar ei gyfer gan fod y manylion wedi'u rhoi drwy gyfarwyddiadau HMT. Mae cynnwys y cyfarwyddiadau hyn i'w weld yn y [llythyr oddi wrth HMT at GAD](#) ac yn yr [ateb GAD i HMT](#) sy'n nodi'r gyfradd llog sy'n berthnasol, am ba hyd y mae llog yn berthnasol a'r dull o gymhwyso llog.

## Treth

134. Gan nad yw cyfraniadau pensiwn a wneir i'r TPS yn destun treth, mae rhai cyfyngiadau ar waith i gyfyngu ar faint o fuddion y gall aelod eu cronni naill ai mewn un flwyddyn, a elwir yn Lwfans Blyneddol (AA), neu dros oes, a elwir yn Lwfans Oes (LTA). Os bydd aelod yn mynd y tu hwnt i'w AA neu LTA, byddai'n dod yn agored i daliad treth ac fel arfer dim ond ar y rhai sy'n ennill cyflogau uchel y bydd hyn yn effeithio.

135. O fewn y TPS, gwrywod yw'r rhai sy'n ennill uchaf fel arfer ac nid ydynt o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r [Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion](#) yn darparu data ar gyflogau athrawon ac mae gwrywod yn ennill mwy na'u cymheiriaid benywaidd mewn ysgolion uwchradd, ac maent hefyd yn fwy tebygol o ddal swydd arweinydd sy'n hawlio'r cyflogau uchaf. Nid oes disgwyl i'r newidiadau i'r rheoliadau treth o fewn y TPS effeithio'n andwyol ar unrhyw un, ond i roi aelodau yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddynt heb y gwahaniaethu. Er bod yr Adran yn cydnabod, yn ymarferol, mai gwrywod nad ydynt o leiafrifoedd ethnig sydd fwyaf tebygol o fod yn destun taliadau treth AA/LTA, nid yw'n ganlyniad uniongyrchol i'r diweddariad polisi hwn, ac nid ydym yn credu mai diwygiadau McCloud yw'r fforwm cywir i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o fewn swyddi a chyflogau arweinyddiaeth.

136. 136. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y darpariaethau treth yn y diwygiadau ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig.

## Llog

137. Er bod rhaid i'r Adran gydymffurfio â chyfarwyddiadau HMT, mae angen iddi ystyried a yw triniaeth wahaniaethol yn cael ei chreu rhwng y garfan o fewn cwmpas rhwymedi McCloud a'r rhai nad ydynt.

138. Mae'r rhai sydd o fewn cwmpas rhwymedi McCloud i'w gweld yn **Nhablau 4-6** ac ychydig o aelodau sydd o dan 30 oed oherwydd y meini prawf cymhwysedd a ddisgrifir ym mharagraff 25. Mae'r rhai y tu allan i gwmpas McCloud felly yn debygol o fod yn aelodau iau o gymharu â'r rhai o fewn cwmpas. Ni ddisgwylir i'r newidiadau i'r darpariaethau llog o fewn y TPS effeithio'n andwyol ar unrhyw un, ond i roi aelodau yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi heb y gwahaniaethu. Gan fod y ddarpariaeth llog i gyfrif am unrhyw oedi mewn taliadau neu newidiadau i fuddion, ni fyddai hyn yn berthnasol i aelodau nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhwymedi McCloud gan y byddai eu taliadau pensiwn a'u cyfraniadau yn aros fel y maent ar hyn o bryd. Byddai unrhyw ddiwygiadau i daliadau neu gyfraniadau ar gyfer aelod anghymwys o ganlyniad i broses bresennol, busnes fel arfer, yr ymdrinnir â hi gan ddefnyddio'r darpariaethau treth a llog presennol. Mae'r diweddariadau i log i gyfrif am y gwahaniaethu y mae aelodau wedi bod yn destun iddo ac i unioni'r gwahaniaethu hwn mewn modd teg a chyfiawn.

139. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y darpariaethau llog yn y diwygiadau ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig



## Datganiadau Gwasanaeth Adferadwy

140. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 61-70 a 195-198 o'r ddogfen ymgynghori.

141. Bydd pob aelod cymwys yn cael Datganiad Gwasanaeth Adferadwy (RSS) am eu gwasanaeth adferadwy. Bydd RSS cychwynnol yn cael ei gyflwyno i bob aelod o fewn 18 mis i weithredu'r rhwymedi (1 Hydref 2023). Mae [Adran 1](#) o'r PSPJOA yn nodi'r meini prawf cymhwysedd ac yn ei dro yn diffinio pwy sydd angen derbyn RSS. Nid yw'r Adran wedi nodi unrhyw ystyriaethau cydraddoldeb i'w harchwilio o ran y gofyniad i ddarparu RSS gan fod hyn yn rhoi llwybr hygyrch i aelodau ddeall eu hopsiynau ynghylch buddion. Yn ogystal ag RSS, efallai y bydd angen gwybodaeth ar rai aelodau er mwyn gwneud penderfyniadau yn dilyn dirwyn yn ôl gwasanaeth cynllun diwygiedig i'r cynllun etifeddiaeth ar 1 Hydref 2023. Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu drwy hysbysiadau ar wahân i'r RSS.

142. Mae'r Adran yn cynnig y dyddiadau cau isod ar gyfer ymateb i'r RSS a hysbysiadau cyfatebol:

- Bydd dirwyn yn ôl [cyfraniadau](#), dirwyn yn ôl [hyblygrwydd](#) ac [Aelodau Credyd Pensiwn](#) (PCM) gyda chredydau cynllun etifeddiaeth a chredydau cynllun diwygiedig yn cael cyfnod o 6 mis i ystyried ac ymateb i unrhyw rybudd a gânt. Nid yw'r un o'r rhain yn cyfateb i RSS oherwydd, yn benodol, nid yw PCMs yn dal gwasanaeth adferadwy eu hunain, ond mae rhwymedi McCloud yn effeithio arnynt ac felly byddant yn cael hysbysiad cyfatebol i wneud eu dewis ynghylch buddion. Yn yr un modd, mae angen i gyfraniadau a phenderfyniadau hyblygrwydd ddigwydd er mwyn gallu darparu RSS, ond nid ydynt yn RSS yn eu rhinwedd eu hunain o dan Adran 1 y PSPJOA.
- Bydd aelodau Gweithredol, Gohiriedig a Phensiynwyr i gyd yn cael cyfnod o 12 mis i ymateb i'w RSS sy'n cynnwys [penderfynwyr](#) sy'n gweithredu ar ran unrhyw aelodau sydd wedi marw. Mae hyn ar gyfer buddion y tu allan i gyfraniadau a hyblygrwydd, fel y disgrifir uchod, ond bydd y dewisiadau a wneir yn cael eu hadlewyrchu yn yr RSS.

143. Bydd yr RSS yn fwy cymhleth i rai aelodau o'r cynllun yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol, megis a oes ganddynt orchymyn rhannu pensiwn yn ei le. Gall aelodau ofyn am estyniad i'r terfynau amser uchod os oes angen mwy o amser arnynt i wneud penderfyniad gwybodus cyn ymateb i'r TPS gyda'u dewisiadau RSS.

## Oedran

144. Rhaid darparu RSS i bob aelod cymwys sy'n cynnwys ystod o oedrannau fel y gwelir yn **Nhablau 4-6**. Mae pob aelod yn derbyn yr un amserlen, ac mae ganddynt yr un

gallu i ofyn am estyniad, sy'n berthnasol waeth beth fo'u statws. Felly nid yw'r Adran wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y terfyn amser hwn yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail eu hoedran. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Rhyw

145. Yn yr un modd, mae rhyw yr aelodau sydd o fewn cwmpas i dderbyn RSS ac felly gadw at y terfynau amser yn amrywio, yn unol â **Thablau 2-4**. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar gydraddoldeb ynghylch y nodwedd hon ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn aelodau ar sail rhyw. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Anabledd

146. Mae data a gafwyd o'r Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion ar gyfer [Cymru](#) a [Lloegr](#) yn hysbysu mai cyfran isel iawn o athrawon, llai na 1%<sup>31</sup>, sydd wedi datgan anabledd. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar gydraddoldeb ynghylch y nodwedd hon ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu yn erbyn y grŵp penodol hwn. Y brif sail ar gyfer y casgliad hwn yw bod terfyn amser RSS yn rhoi amserlen o 6 neu 12 mis i aelodau ymateb, a gellir gofyn am fwy o amser, os oes angen. Mae rhoi amserlen o 6 neu 12 mis yn caniatáu i'r aelod gael cyngor gan Gyngorydd Ariannol Annibynnol neu benodi cynrychiolydd (ffrind, aelod o'r teulu, cynrychiolydd undeb neu arall) i weithredu ar ei ran pe byddai angen cymorth ychwanegol arno. Mae'r Adran felly o'r farn bod yr amserlen hon yn darparu ar gyfer unrhyw aelodau a all fod ag anabledd ac sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u penderfyniadau fel nad oes unrhyw effaith anghymesur ar y grŵp hwn. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

---

<sup>31</sup> Yn Lloegr, ni chafwyd gwybodaeth am anabledd gan ysgolion ar gyfer 53% o athrawon yng nghyfrifiad Tachwedd 2021. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn awgrymu bod 1% o athrawon yn anabl, fodd bynnag, efallai nad yw hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol o ystyried y swm mawr o ddata coll. Felly, ni ddarperir dadansoddiad yng nghyhoeddiad y Cyfrifiad, a dim ond at ddibenion dangosol y dylid ei ddefnyddio.

## Rhagosodiadau

147. Darllenwch yr adran hon ar y cyd â pharagraffau 75-80 a 204-207 o'r ddogfen ymgynghori.

148. Effaith [Adran 2](#) y PSPJOA yw y bydd pob aelod sy'n gymwys ar gyfer DCU yn derbyn buddion cynllun etifeddiaeth oni bai bod yr aelod yn dewis derbyn buddion cynllun diwygiedig. O ganlyniad, os bydd aelod yn methu ag arfer ei ddewis DCU, bydd buddion ymddeol yn cael eu talu fel buddion cynllun etifeddiaeth gan mai dyma'r cynllun y mae'r aelod yn gyfreithiol yn aelod ohono am y cyfnod rhwymedi. Mae [Adran 8](#) ac [Adran 12](#) o'r PSPJOA yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau i dybio bod dewis ar gyfer buddion cynllun diwygiedig wedi'i wneud gan yr aelod. Bydd aelodau (neu eu cynrychiolwyr) yn cael dewis IC neu DC pan fyddant yn derbyn eu RSS. Os na cheir penderfyniad gan yr aelod neu'r DM o fewn yr amserlen briodol, bydd y TPS yn tybio bod dewis buddion cynllun diwygiedig wedi'i wneud os yw'r buddion hyn yn darparu gwerth ariannol uwch.

149. Mae'r tabl isod yn archwilio pryd y byddai'r sefyllfa ragosodedig yn cael ei gweithredu a lle gallai'r TPS ddefnyddio'r pŵer i dybio dewis:

	<b>Pob math o warchodaeth<sup>32</sup></b>
<b>Gweithredol a gohiriedig</b>	Dim sefyllfa ragosodedig gan fod rhaid i'r aelod gadarnhau ei DCU fel rhan o'r broses ymgeisio er mwyn caniatáu i fuddion gael eu cyfrifo a'u talu. Felly mae'r pŵer i dybio etholiad yn amherthnasol.
<b>Pensiynwr ac ymadawedig (gan gynnwys aelod ymadawedig DCU)</b>	Mae'r sefyllfa ragosodedig ar gyfer buddion etifeddiaeth, ond lle byddai buddion diwygiedig yn fwy buddiol i'r aelod, gall y TPS ddefnyddio <a href="#">Adran 8</a> neu <a href="#">Adran 12</a> o'r PSPJOA i dybio dewis ar gyfer buddion diwygiedig yn hytrach na gweithredu'r rhagosodiad.

**Tabl 18: Sefyllfa Ragosodedig yn ôl Math o Warchodaeth**

150. Mae'r gwahaniaeth yn y driniaeth uchod, sy'n ymwneud â statws aelod, yn adlewyrchu bod buddion eisoes yn cael eu talu, neu wedi'u talu, ar gyfer pensiynwyr/aelodau ymadawedig ac felly mae angen penderfyniad DCU cyn y gellir dileu'r gwahaniaethu. Pan fydd aelod DCU yn marw cyn cadarnhau ei ddewis, bydd y cynllun yn defnyddio'r pŵer o dan a.12 i dybio bod dewis wedi'i wneud lle mae DM yn

<sup>32</sup> Aelodau gyda Gwarchodaeth, Heb Warchodaeth/Trosiannol ac Aelodau Taprog

methu â chadarnhau dewis a byddai buddion cynllun diwygiedig yn fwy buddiol. Byddai hyn yn osgoi sefyllfa lle na wneir penderfyniad ac felly ni ellir gwneud taliadau i fuddiolwyr. Ar gyfer aelodau gweithredol a gohiriedig, bydd y DCU yn cael ei ymgorffori yn y broses presennol ar gyfer gwneud cais am fuddion i sicrhau bod penderfyniad yn cael ei dderbyn a bod y gwahaniaethu yn cael ei ddileu, cyn talu.

	Cyfanswm TrP			Gweithredol			Gohiriedig			Pensiynwr		
	G	B	C	G	B	C	G	B	C	G	B	C
<b>&lt;25</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>25-29</b>	20	28	48	3	9	12	14	12	26	3	7	10
<b>30-34</b>	4,468	18,260	22,728	3,273	13,795	17,068	1,170	4,407	5,577	25	58	83
<b>35-39</b>	19,637	62,580	82,217	14,653	46,390	61,043	4,907	16,026	20,933	77	164	241
<b>40-44</b>	25,576	71,265	96,841	19,205	53,426	72,631	6,252	17,542	23,794	119	297	416
<b>45-49</b>	25,807	66,086	91,893	19,263	49,795	69,058	6,316	15,773	22,089	228	518	746
<b>50-54</b>	27,004	62,162	89,166	19,101	44,062	63,163	7,206	16,755	23,961	697	1,345	2,042
<b>55-59</b>	25,515	59,445	84,960	12,763	29,146	41,909	5,307	14,315	19,622	7,445	15,984	23,429
<b>60-64</b>	22,399	50,201	72,600	4,175	8,224	12,399	1,564	3,971	5,535	16,660	38,006	54,666
<b>65-69</b>	12,510	27,685	40,195	996	1,462	2,458	338	801	1,139	11,176	25,422	36,598
<b>70-74</b>	3,526	4,429	7,955	253	240	493	134	197	331	3,139	3,992	7,131
<b>75-79</b>	401	434	835	0	0	0	64	67	131	337	367	704
<b>80-82</b>	29	30	59	0	0	0	5	5	10	24	25	49
<b>Cyfanswm</b>	<b>166,892</b>	<b>422,605</b>	<b>589,497</b>	<b>93,685</b>	<b>246,549</b>	<b>340,234</b>	<b>33,277</b>	<b>89,871</b>	<b>123,148</b>	<b>39,930</b>	<b>86,185</b>	<b>126,115</b>

G = Gwryw, B = Benyw, C = Cyfanswm

Tabl 19: Aelodau Gwarchodaeth Drosiannol wedi'u rhannu'n Statws Gweithredol, Gohiriedig neu Bensiynwr

## Oedran

151. Ceir triniaeth wahaniaethol o ran pryd y gellid gweithredu sefyllfa ragosodedig. Mae'r driniaeth wahaniaethol hon yn ymwneud â statws yr aelod ac felly'n cyfateb i oedran yr aelod. Mae'r tabl isod yn dangos statws yr aelod yn erbyn y warchodaetha roddwyd yn wreiddiol:


	Gwarchodaeth Llawn	Gwarchodaeth Daprog	Heb Warchodaeth(Trosiannol)
<b>Gweithredol</b>	10%	42%	72%
<b>Gohiriedig</b>	3%	20%	26%
<b>Pensiynwr/Ymadawedig</b>	86%	38%	2%

Tabl 20: Aelodau Gwarchodaeth Trosiannol yn ôl Statws a Math o Warchodaeth

152. Mae'r data'n dangos bod math o warchodaeth yr aelod yn cyfateb i'r posibilrwydd o weithredu sefyllfa ragosodedig. Gan mai dim ond ar gyfer pensiynwr neu aelod ymadawedig y gellid gweithredu rhagosodiad, mae gan hyn gyfradd mynychder llawer uwch ymhlith aelodau gwarchodaeth llawn o gymharu ag aelodau heb warchodaeth. Gellid dweud felly bod hyn yn cyfateb yn ôl i'r gwahaniaethu gwreiddiol, ond mae effeithiau cysylltiedig ag oedran yn anochel o ystyried bod mynediad at fuddion ymddeol yn digwydd o 55 oed fel isafswm h.y., mae statws pensiynwr yn ymwneud ag oedran. Oherwydd hyn, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn y grŵp penodol hwn. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Rhyw

153. Mae'r siart isod yn dangos rhyw aelodau o fewn y TPS o'i gymharu â'r rhai sydd o fewn cwmpas ar gyfer y rhwymedi fel cyfanswm ac wedi'u rhannu yn ôl math owarchodaeth:



**Cyfanswm Aelodau TPS; Cyfanswm Aelodau TrP; Gwarchodaeth Llawn; Gwarchodaeth Daprog; Trosiannol.**

**Gwryw Benyw**

**Ffigur 12: Proffiliau Rhyw ar gyfer Aelodau Gwarchodaeth Drosiannol yn ôl Math o Warchodaeth**

154. Mae amrywiaethau rhwng y proffiliau rhyw o fewn y mathau o warchodaeth o'u cymharu ag aelodaeth gyffredinol y cynllun, ond mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac wedi dod i'r casgliad nad yw diwygiadau yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn y grŵp penodol hwn. Mae'r Adran yn nodi bod gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail rhyw wedi'i nodi ym nyfarniad gwreiddiol McCloud ar draws y sector cyhoeddus oherwydd y cynnydd diweddar mewn gweithwyr benywaidd yn y sector cyhoeddus. Ac eto, mewn perthynas â'r gweithlu addysgu yn Lloegr, mae hyn wedi bod yn gyson ac yn bennaf yn fenywod; 75.5% ym mis Tachwedd 2021 (2021/22), i fyny o 74.4% yn 2010/11. Oherwydd hyn, nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl ac felly daw'r Adran i'r casgliad nad oes unrhyw effaith anghymesur ar y grŵp hwn.

## Hil (Ethnigrwydd)

155. Mae data a gafwyd o'r Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion ar gyfer [Cymru](#) a [Lloegr](#) yn dangos bod 14.9% o athrawon yn Lloegr ac 1.1% yng Nghymru wedi nodi eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol. Yn seiliedig ar [Gyfrifiad 2011](#), nododd 20.2% o Loegr a 6.8% o Gymru eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol er mwyn caniatáu cymhariaeth yn erbyn y Gweithlu Ysgolion. Mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl y diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn y grŵp penodol hwn. Mae ein dadansoddiad wedi nodi gwahaniaethu anuniongyrchol posibl a'r brif sail ar gyfer y casgliad hwn yw, yn unol â dyfarniad gwreiddiol McCloud, bod amrywiaeth ethnig y gweithlu addysgu wedi cynyddu o 11.2% yn Lloegr ers 2010/11. Gallai hyn awgrymu efallai bod aelodau gyda gwarchodaeth yn llai tebygol o fod mewn lleiafrif ethnig. Er hynny, mae'r sefyllfa

ragosodedig yn berthnasol i fwy o aelodau gyda gwarchodaeth oherwydd y gofyniad isafswm oedran i gael mynediad at fuddion pensiwn ac mae'r diwygiadau'n berthnasol waeth beth fo hil unigolyn sy'n golygu nad oes unrhyw effaith anghymesur ar y grŵp hwn. Mae angen y driniaeth wahaniaethol ar sail oedran, ac yn anuniongyrchol ar hil, i ddileu'r gwahaniaethu anghyfreithlon a nodwyd ac mae'n anochel oherwydd darpariaethau pensiwn sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag oedran.



## Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

156. Oherwydd y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, nid yw'r TPS yn gallu cadw data ar unrhyw un o'r nodweddion y tu allan i oedran a rhyw gan nad oes angen y wybodaeth hon at ddibenion gweinyddu'r cynllun pensiwn, yn unol ag [Erthygl 5](#) 1(c) ac (e). Serch hynny, gellir cael data o ffynonellau eraill, i roi syniad o sut y gellid cynrychioli'r nodweddion eraill o fewn y TPS, sy'n cynorthwyo'r Adran i asesu sut y gallai'r newidiadau polisi arfaethedig effeithio ar aelodau. Mae'r hyn isod yn crynhoi'r effeithiau ar bob un o'r nodweddion gwarchodedig o fewn cyd-destun ehangach y diwygiadau pensiynau sy'n cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu a nodwyd yn McCloud.

### Oedran

157. Cedwir oedran yr aelodau gan weinyddwyr y cynllun, ac felly mae gennym ddata penodol y TPS drwy gydol yr EIA. Gan ddefnyddio'r data sydd ar gael, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb, o ran dileu ymddygiad gwahaniaethol, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da.

158. O fewn diwygiadau McCloud, canfuwyd effeithiau cysylltiedig ag oedran mewn meysydd polisi lluosog, fodd bynnag nod y diwygiadau yw dileu'r gwarchodaethau gwahaniaethol a roddwyd yn wreiddiol, a ddyfarnwyd ar sail oedran, felly mae'r sefyllfa hon yn gwbl anochel. Lle mae effeithiau oedran wedi digwydd, mae'r Adran yn credu bod y rhain yn gyfiawn ac yn fodd cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Darperir ar gyfer y cyfiawnhad trwy gydol yr EIA hwn ym mhob dadansoddiad adran bolisi. Mae dileu'r mathau o warchodaeth yn rhoi'r un opsiynau buddion i aelodau, ac maent i gyd wedi'u rhoi yn y sefyllfa, neu'r sefyllfa orau bosibl, pe na byddai'r gwahaniaethu wedi digwydd. Mae hyn yn cynnig y cyfle i hyrwyddo cyfle cyfartal trwy ddarparu opsiynau a dewisiadau buddion cyfartal i bob aelod neu mor agos at gyfartal â phosibl o ystyried natur ôl-weithredol y rhwymedi. Nid yw'r diwygiadau yn cynnig y newid i feithrin cysylltiadau da. Nid yw'r Adran wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod diwygiadau McCloud yn darparu ar gyfer gwahaniaethu anghymesur ar y grŵp hwn naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

### Rhyw

159. Cedwir oedran yr aelodau gan weinyddwyr y cynllun, ac felly mae gennym ddata penodol y TPS drwy gydol yr EIA. Gan ddefnyddio'r data sydd ar gael, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb, o ran dileu ymddygiad gwahaniaethol, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da.

160. Yn unol â dyfarniad McCloud, mae effeithiau oedran yn cael effaith anuniongyrchol ar nodwedd warchodedig rhyw o ystyried amrywiaeth cynyddol gweithlu'r sector cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n cydgysylltu ag oedran. O fewn y gweithlu

addysgu yn benodol, mae'r rhyw wedi bod yn gyson ac yn bennaf yn fenywaidd, fodd bynnag mae rhai meysydd polisi lle mae'r data'n dangos cynrychiolaeth anghymesur o ryw o gymharu ag aelodaeth gyffredinol y cynllun.

161. Er bod yr Adran yn cydnabod, yn ymarferol, bod cynrychiolaeth anwastad o ryw o fewn rhai meysydd polisi, nid yw hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r diweddariadau polisi hyn, ac ni chredwn mai diwygiadau McCloud yw'r fforwm cywir i fynd i'r afael â hyn. . Mae'r Adran felly wedi dod i'r casgliad nad yw diwygiadau i'r cynllun yn gwahaniaethu yn erbyn y grwpiau penodol hyn, ac nid yw ychwaith yn cynnig y cyfle i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw elfen o'r diwygiadau yn gwahaniaethu yn erbyn rhyw unigolyn, ar y sail bod y darpariaethau diwygio'n berthnasol waeth beth fo'r nodweddion hyn ar yr aelod ac nid oes tystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu yn erbyn y grwpiau penodol hyn. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Hil (Ethnigrwydd)

162. Nid yw gweinyddwr y cynllun yn cadw data ar hil aelodau'r TPS, ond mae data o'r Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion ar gyfer [Cymru](#) a [Lloegr](#) ar gael ar nodweddion gwarchoddedig staff mewn ysgolion, a ystyrir yn brocsi rhesymol ar gyfer nodweddion y TPS, o ystyried y ganran uchel o'r rhai sy'n gymwys i fod yn aelodau.

163. Dengys y data fod 14.9% o athrawon yn Lloegr<sup>33</sup> ac 1.1% yng Nghymru<sup>34</sup> wedi uniaethu fel rhai o gefndir ethnig lleiafrifol. Yn seiliedig ar [Gyfrifiad 2011](#), nododd 20.2% o Loegr a 6.8% o Gymru eu bod o gefndir ethnig lleiafrif<sup>35</sup> er mwyn caniatáu cymhariaeth yn erbyn y Gweithlu Ysgolion. Gan ddefnyddio'r data sydd ar gael, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb, o ran dileu ymddygiad gwahaniaethol, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da.

164. Yn unol â dyfarniad McCloud, mae effeithiau oedran yn cael effaith anuniongyrchol ar nodwedd warchoddedig hil o ystyried amrywiaeth gynyddol y gweithlu addysgu dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n cydgysylltu ag oedran. Mae'r Adran yn credu bod yr effeithiau anuniongyrchol felly yn gyfyngedig, ond yn bresennol. Lle mae effeithiau hil wedi digwydd, mae'r Adran yn credu bod y rhain yn cael eu cyfiawnhau ac yn fodd cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Darperir ar gyfer y cyfiawnhad trwy gydol yr EIA hwn ym mhob dadansoddiad adran bolisi. Mae dileu'r mathau o warchodaeth yn rhoi'r un opsiynau

---

<sup>33</sup> O fis Tachwedd 2021 ymlaen, ar gyfer blwyddyn ysgol 2021/22

<sup>34</sup> O'r dyddiad cyhoeddi ar 30 Mehefin 2022

<sup>35</sup> Cefndir ethnig lleiafrifol yma yw unrhyw un sy'n nodi ei fod yn ethnigrwydd nad yw'n Wyn Prydeinig

buddion i aelodau, ac maent i gyd wedi'u rhoi yn y sefyllfa, neu'r sefyllfa orau bosibl, pe na byddai'r gwahaniaethu wedi digwydd. Mae hyn yn cynnig y cyfle i hyrwyddo cyfle cyfartal trwy ddarparu opsiynau a dewisiadau buddion cyfartal i bob aelod neu mor agos at gyfartal â phosibl o ystyried natur ôl-weithredol y rhwymedi. Nid yw'r diwygiadau yn cynnig y cyfle i feithrin cysylltiadau da. Nid yw'r Adran wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod diwygiadau McCloud yn darparu ar gyfer gwahaniaethu anghymesur ar y grŵp hwn naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol

## Anabledd

165. Nid yw gweinyddwyr y cynllun yn cadw data ar statws anabledd aelodau TPS, ond mae'r Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion ar gyfer [Cymru](#) a [Lloegr](#) ar gael ar nodweddion gwarchoddedig staff mewn ysgolion, a ystyrir yn brocsi rhesymol ar gyfer nodweddion y TPS, o ystyried y ganran uchel o'r rhai sy'n gymwys i fod yn aelodau. Ar gyfer Lloegr, ni chafwyd y wybodaeth am anabledd gan ysgolion ar gyfer 53% o athrawon yng nghyfrifiad Tachwedd 2021. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn awgrymu bod 1%<sup>36</sup> o athrawon yn anabl, fodd bynnag, efallai nad yw hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol o ystyried y swm mawr o ddata coll ac felly ni ddarperir dadansoddiad yng nghyhoeddiad y Cyfrifiad. Felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio data Lloegr, ond mae'r Adran yn credu mai dyma'r dirprwy gorau sydd gennym ar hyn o bryd.

166. Er gwaethaf y gyfran isel o athrawon sy'n datgan anabledd, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ar y nodwedd hon ar gydraddoldeb, o ran dileu ymddygiad gwahaniaethol, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad nad yw'r diwygiadau i'r cynllun yn gwahaniaethu yn erbyn y grŵp penodol hwn, ac nid yw ychwaith yn cynnig y cyfle i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Y brif sail ar gyfer y casgliad hwn yw bod darpariaethau'r diwygiadau yn gymwys ni waeth a oes gan unigolyn anabledd ac nid oes dystiolaeth i awgrymu eu bod yn darparu ar gyfer effaith anghymesur ar y grŵp hwn.

167. O dan y rheolau presennol (busnes fel arfer), os nad yw aelod yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun oherwydd ei fod yn analluog yna gall y TPS dderbyn Pŵer Atwrnai neu Orchymyn Llys Gwarchod i ganiatáu i berson arall wneud penderfyniadau ar ran yr aelod. Os nad yw'r naill na'r llall o'r rhain yn bresennol, ond bod yr aelod yn dal yn alluog, gallwn dderbyn Llythyr Awdurdod gan yr aelod sy'n penodi rhywun arall i weithredu ar ei

---

<sup>36</sup> Yn Lloegr, ni chafwyd gwybodaeth am anabledd gan ysgolion ar gyfer 53% o athrawon yng nghyfrifiad Tachwedd 2021. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn awgrymu bod 1% o athrawon yn anabl, fodd bynnag, efallai nad yw hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol o ystyried y swm mawr o ddata coll. Felly, ni ddarperir dadansoddiad yng nghyhoeddiad y Cyfrifiad, a dim ond at ddibenion dangosol y dylid ei ddefnyddio.

ran a'i helpu i wneud unrhyw ddewisiadau ynghylch ei fuddion pensiwn. Gall hyn fod yn berthnasol i aelodau o fewn cwmpas McCloud oherwydd os nad ydynt yn teimlo y gallant wneud eu dewis buddion eu hunain neu os yw eu hiechyd yn gwaethygu cyn iddynt gyrraedd yr oedran i dderbyn eu DCU yna gallent benodi rhywun i weithredu ar eu rhan

## Crefydd neu Gred

168. Nid oes data ar gael am y grŵp hwn sydd yn benodol mewn perthynas â'r gweithlu addysgu. Mae data ar gael gan y [SYG](#) sy'n darparu cymhariaeth o'r grwpiau crefyddol yng Nghymru a Lloegr, ond nid yw hyn o reidrwydd yn cynrychioli'r grwpiau crefyddol o fewn y gweithlu addysgu.

	Bwdaidd	Cristnogol	Hindŵaidd	Iddewig	Mwslimaidd	Sicaidd	Dim Crefydd	Arall
<b>Lloegr</b>	0.5%	51.2%	1.7%	0.6%	5.9%	0.7%	37.9%	1.5%
<b>Cymru</b>	0.3%	48.2%	0.3%	0.1%	1.8%	0.1%	47.3%	2.0%

Tabl 21: Amcangyfrifon Poblogaeth yn ôl Crefydd yng Nghymru a Lloegr<sup>37</sup>

169. Serch hynny, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau o ran y nodwedd hon, o ran dileu ymddygiad gwahaniaethol, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da.

170. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad nad yw diwygiadau i'r cynllun yn gwahaniaethu yn erbyn y grwpiau penodol hyn, ac nid yw ychwaith yn cynnig y cyfle i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw elfen o'r diwygiadau yn gwahaniaethu yn erbyn crefydd neu gred unigolyn, ar y sail bod darpariaethau'r diwygiadau'n berthnasol waeth beth fo'r nodweddion hyn ar yr aelod ac nid oes tystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn y grwpiau penodol hyn. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Cyfeiriadedd Rhywiol

171. Nid oes unrhyw ddata ar gael am y grŵp hwn sydd yn benodol mewn perthynas â'r gweithlu addysgu. Mae data ar gael gan y [SYG](#) sy'n darparu ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr, ond nid yw hyn o reidrwydd yn cynrychioli'r cyfeiriadedd rhywiol sy'n bresennol yn y gweithlu addysgu.

<sup>37</sup> Ystyrir bod yr holl ddata yn y tabl yn fanwl gywir ac eithrio'r data Cymreig ar Fwdaidd a Hindŵaidd sy'n cael eu hystyried yn dderbyniol ac ystyrir bod yn Iddewig a Sicaidd yn annibynadwy at ddibenion ymarferol.

	Heterorywiol neu Syth	Hoyw neu Lesbiaidd	Deurywiol	Panrywiol	Anrhywiol	Cwiar	Arall
<b>Lloegr</b>	89.37%	1.54%	1.29%	0.23%	0.06%	0.03%	0.02%
<b>Cymru</b>	89.42%	1.49%	1.24%	0.18%	0.06%	0.02%	0.01%

**Tabl 22: Amcangyfrifon Poblogaeth yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol yng Nghymru a Lloegr<sup>38</sup>**

172. Serch hynny, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ynghylch y nodwedd hon, o ran dileu ymddygiad gwahaniaethol, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da.

173. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad nad yw diwygiadau McCloud yn gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn erbyn y grwpiau penodol hyn, ac nid yw ychwaith yn cynnig y cyfle i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad nad yw'r diwygiadau i'r cynllun yn gwahaniaethu yn erbyn y grŵp penodol hwn, ac nid yw ychwaith yn cynnig y cyfle i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Y brif sail ar gyfer y casgliad hwn yw bod darpariaethau'r diwygiadau yn gymwys ni waeth beth yw cyfeiriadedd rhywiol unigolyn ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn darparu ar gyfer effaith anghymesur ar y grŵp hwn.

## Ailbennu Rhywedd (gan gynnwys Trawsryweddol)

174. Nid oes data ar gael am y grŵp hwn sydd yn benodol mewn perthynas â'r gweithlu addysgu. Mae data ar gael gan y [SYG](#) sy'n darparu ar gyfer hunaniaeth rhywedd y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr, ond nid yw hyn o reidrwydd yn cynrychioli'r hunaniaethau rhywedd sy'n bresennol yn y gweithlu addysgu.

	Yr un fath â rhyw cofrestredig adeg geni	Gwahanol i ryw cofrestredig adeg geni	Menyw Traws	Dyn Traws	Anneuaid	Arall
<b>Lloegr</b>	93.47%	0.25%	0.10%	0.10%	0.06%	0.04%
<b>Cymru</b>	93.28%	0.16%	0.07%	0.08%	0.06%	0.04%

**Tabl 23: Amcangyfrifon Poblogaeth yn ôl Hunaniaeth Rhywedd yng Nghymru a Lloegr<sup>39</sup>**

<sup>38</sup> Gan fod y cwestiwn cyfeiriadedd rhywiol yn wirfoddol yng Nghyfrifiad 2021, nid yw'r canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%, gan fod "Heb Ateb" wedi'i eithrio o'r tabl. Canran y boblogaeth na atebodd oedd 7.5% yn Lloegr a 7.6% yng Nghymru.

<sup>39</sup> Gan fod y cwestiwn hunaniaeth rhyw yn wirfoddol yng Nghyfrifiad 2021, nid yw'r canrannau'n dod i gyfanswm o 100%, gan fod "Heb Ateb" wedi'i eithrio o'r tabl. Canran y boblogaeth na atebodd oedd 5.98% yn Lloegr a 6.32% yng Nghymru.

175. Serch hynny, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ynghylch y nodwedd hon, o ran dileu ymddygiad gwahaniaethol, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da.

176. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad nad yw diwygiadau McCloud yn gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn erbyn y grwpiau penodol hyn, ac nid yw ychwaith yn cynnig y cyfle i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad nad yw'r diwygiadau i'r cynllun yn gwahaniaethu yn erbyn y grŵp penodol hwn, ac nid yw ychwaith yn cynnig y cyfle i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Y brif sail ar gyfer y casgliad hwn yw bod darpariaethau'r diwygiadau yn berthnasol p'un a oes gan unigolyn hunaniaeth rhywedd benodol ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod yn darparu ar gyfer effaith anghymesur ar y grŵp hwn.


## **Priodas/Partneriaeth Sifil**

177. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â'r gweithlu addysgu, ond mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau ynghylch y nodwedd hon, yn benodol o ran gofyniad PSED i ddileu ymddygiad gwahaniaethol. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw elfen o'r diwygiadau yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn y rhai sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil, ar y sail bod darpariaethau'r diwygiadau yn berthnasol waeth beth fo statws priodasol yr aelod ac nid oes dystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu yn erbyn y grŵp penodol hwn. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## **Beichiogrwydd/Mamolaeth**

178. Nid oes data ar gael am y grŵp hwn yn benodol ynghylch y gweithlu addysgu. Mae data ar gael gan y [SYG](#) sy'n darparu ar gyfer y gyfradd beichiogi yng Nghymru a Lloegr a allai roi arwydd o feichiogrwydd, ond nid yw hyn o reidrwydd yn cynrychioli'r oedrannau beichiogrwydd na'r cyfraddau o fewn y gweithlu addysgu.

179. Mae'r data'n dangos bod y gyfradd genhedlu ar ei huchaf ymhlith y grŵp oedran 30-34, a ddilynir yn agos gan y grŵp oedran 25-29, fel yn y siart isod:



**40 a throsodd; 35 i 39; 30 i 34; 25 i 29.**

**Ffigur 13: Cyfradd Feichiogi fesul 1,000 o Fenywod yng Nghymru a Lloegr**

180. O fewn y TPS, mae 139,689 o fenywod gweithredol rhwng 25-34 oed ac mae 18,288 o'r rheini o fewn cwmplas y rhwymedi TrP. Er gwaethaf y diffyg data sydd ar gael ynghylch y gweithlu addysgu, mae'r Adran wedi ystyried effaith bosibl diwygiadau o ran y nodwedd hon, o ran dileu ymddygiad gwahaniaethol, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da.

181. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw elfen o'r diwygiadau yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn y rheini sy'n feichiog neu ar famolaeth, ar y sail bod darpariaethau'r diwygiadau yn berthnasol ni waeth beth fo statws beichiogrwydd/mamolaeth yr aelod ac nid oes tystiolaeth i awgrymu eu bod yn gwahaniaethu yn erbyn y grŵp arbennig hwn. Yn yr un modd nid yw ein dadansoddiad wedi nodi unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol gwirioneddol neu bosibl.

## Casgliad

182. Gan roi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'r Adran wedi ystyried yn ofalus effaith y rhwymedi gwarchodaeth drosiannol ar aelodau'r TPS ynghylch pob un o'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran, rhyw, hil (ethnigrwydd), anabledd, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd a phriodas neu bartneriaeth sifil. Tair cangen y PSED yw:

- 1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010,
- 2) hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu,
- 3) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

183. Nid yw'r Adran yn credu bod y rhwymedi gwarchodaeth drosiannol yn gyfle i feithrin cysylltiadau da ac felly rydym o'r farn nad yw'r drydedd ran yn berthnasol yn yr achos hwn. Gan fod gwahaniaethu anghyfreithlon yn cael ei ddileu, prin yw'r cyfle i hybu cyfle cyfartal yn unol â'r ail ran. Mae'r tabl isod yn dangos effaith y ddwy aelod cyntaf uchod ar bob un o'r nodweddion gwarchodedig:

Nodwedd Warchodedig	Effaith bosibl y polisi arfaethedig (cadarnhaol / negyddol / niwtral <sup>40</sup> / dim effaith)		
	Aelod 1	Aelod 2	Aelod 3
Priodas neu bartneriaeth sifil	Dim Effaith	Nid yw'n berthnasol	Nid yw'n berthnasol
Oedran	Cadarnhaol	Cadarnhaol	Amherthnasol
Hil (ethnigrwydd)	Cadarnhaol	Amherthnasol	Amherthnasol
Anabledd	Niwtral		
Beichiogrwydd a mamolaeth	Niwtral		
Crefydd neu gred	Niwtral		
Rhyw	Niwtral		
Cyfeiriadedd rhywiol	Niwtral		
Ailbennu rhywedd	Niwtral		

Tabl 24: Tabl Casgliad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

<sup>40</sup> Gellir asesu bod penderfyniad sy'n cynnal effaith gadarnhaol a/neu nad yw'n cyflwyno effaith negyddol yn niwtral



184. Mae'r Adran wedi dod i'r casgliad bod effaith andwyol anghymesur ar aelodau cymwys yn annhebygol a bod y diwygiadau yn fodd cymesur o gyflawni'r nod cyfreithlon o ddileu'r gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran a'r gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail rhyw a hil/ethnigrwydd a nodwyd. Mae effeithiau cadarnhaol ar oedran a hil gan fod dileu gwarchodaethau trosiannol yn darparu ar gyfer aelodau sydd â'r un opsiynau buddion, sydd hefyd yn gyfartal, waeth beth fo'u hoedran. Mae unrhyw effaith ar oedran yn debygol o effeithio ar hil yr aelodau oherwydd y cynnydd diweddar yn amrywiaeth y gweithlu addysgu. Bernir felly fod effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon, er gwaethaf diffyg data cynllun penodol. Mae'r nodweddion gwarchodedig eraill wedi'u nodi'n niwtral gan nad oes tystiolaeth i awgrymu bod y newidiadau sy'n cael eu gweithredu yn debygol o wahaniaethu yn erbyn y grwpiau penodol hyn, ond nid oes unrhyw dystiolaeth ychwaith i awgrymu y byddai'r grwpiau hyn yn gweld effaith gadarnhaol, yn unol ag oedran a hil.

## Camau Nesaf

### Casglu Data ac Ystyriaethau Data ar gyfer y Dyfodol

185. Mae Pensiynau Athrawon i fod i gychwyn rhaglen arolwg cwsmeriaid ym mis Mawrth 2024. Bwriedir i'r rhaglen hon, yn y dyfodol, gael barn aelodau ar y diwygiadau a'r gwasanaethau gweinyddol a ddarperir. Defnyddir ymgyrch arolwg ar-lein i gysylltu ag aelodau sydd eisoes wedi derbyn eu datganiadau RSS. Y bwriad yw ehangu'r arolygon i ymgorffori cwestiynau sy'n sefydlu nodweddion yr ymatebydd a bydd yn canolbwyntio ar yr holl nodweddion gwarchoddedig nad ydym yn cadw data penodol TPS ar eu cyfer. Bydd hyn yn rhoi diweddariad ar nodweddion yr aelodaeth, ac yn nodi newidiadau, a allai lywio diwygiadau polisi. Mae union fanylion yr arolwg eto i'w penderfynu, ond mae'n debygol o gynnwys oddeutu 5000 o aelodau. Bydd dull samplu yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â chydweithwyr ystadegol i sicrhau y ceir barn gynrychioliadol, sy'n adlewyrchu aelodaeth ehangach y cynllun, ac i ystyried unrhyw wahaniaethau demograffig rhwng Cymru a Lloegr. Bydd cymryd rhan yn yr arolwg yn wirfoddol, a'i brif ddiben fydd cefnogi darpariaeth gwasanaeth gweithredol Pensiynau Athrawon.

### Cyfathrebu ag Aelodau a Chyflogwyr

186. Byddwn yn parhau i weithio gyda gweinyddwyr y cynllun i gyfathrebu ag aelodau a chyflogwyr, fel bod pob athro yn gwbl ymwybodol o ac yn deall:

- effaith y diwygiadau
- gwerth aros yn y cynllun
- y dewisiadau buddion ar eu Sail Dewis Gohiriedig, neu Ddewis Uniongyrchol os yw'r DCU yn cael ei chymhwyso'n ôl-weithredol
- yr opsiwn ar gyfer ymddeol yn gynharach o fewn y cynllun etifeddiaeth
- y newid mewn gwerth buddion ac a oes unrhyw ordaliadau neu dandaliadau wedi digwydd o ran buddion neu gyfraniadau pensiwn
- argaeledd trosglwyddiadau i'r cynllun gan eu bod bellach wedi symud i drefniant newydd o 1 Ebrill 2022

### Gweithgarwch Dadansoddi Parhaus

187. Mae'r Adran yn cydnabod ei rhwymedigaeth barhaus i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Gyda hynny mewn golwg, bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn parhau i gael eu hystyried wrth i ni fwrw ymlaen â gweithredu a chymhwyso'r rheoliadau a'r polisi newydd o fis Hydref 2023. Bydd yr Adran yn parhau i weithio'n agos gyda gweinyddwr y cynllun i fonitro a nodi unrhyw faterion cydraddoldeb posibl y gellir eu nodi yn ystod y broses weithredol o gyflwyno'r diwygiadau.

## Tabl Acronymau

188. Mae trosolwg o'r acronymau a ddefnyddir yn yr EIA hwn isod:

Acronym	Disgrifiad
<b>FTE+1</b>	Contract cyfwerth ag amser llawn gyda chontract(au) rhan amser ychwanegol a elwir hefyd yn ETS
<b>ABS</b>	Datganiad Buddion Blynyddol
<b>APB</b>	Buddion Pensiwn Ychwanegol
<b>CA</b>	Cynllun Enillion Cyfartaledd Gyrfa wedi'u Hailbrisio
<b>CDC</b>	Hawliad(au) Penderfyniad(au) Wrth Gefn
<b>CETV</b>	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod
<b>DCU</b>	Sail Dewis Gohiriedig
<b>DM</b>	Penderfynydd Cymwys
<b>EIA</b>	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
<b>ERRBO</b>	Gostyngiad Ymddeol yn Gynnar - Gadael y System
<b>ETS</b>	Gwasanaeth Athrawon Dros Ben a elwir hefyd yn FTE+1
<b>FA</b>	Cronni Cyflymach
<b>FS</b>	Cynllun Cyflog Terfynol
<b>HMT</b>	Trysorlys EF
<b>IC</b>	Dewis Uniongyrchol, Sail Dewis Gohiriedig
<b>IHR</b>	Ymddeoliad oherwydd Afiechyd
<b>LGPS</b>	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
<b>MPA</b>	Isafswm Oedran Pensiwn
<b>NPA</b>	Oedran Pensiwn Arferol
<b>ONS</b>	Swyddfa Ystadegau Gwladol
<b>PCM</b>	Aelod Credyd Pensiwn
<b>PDM</b>	Aelod Debyd Pensiwn
<b>PSED</b>	Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
<b>PSO</b>	Gorchymyn Rhannu Pensiwn
<b>PSPJOA</b>	Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022
<b>RSS</b>	Datganiad Gwasanaeth Adferadwy
<b>SPA</b>	Oedran Pensiwn y Wladwriaeth
<b>TPR</b>	Rheoliadau Pensiwn Athrawon 2010
<b>TPS</b>	Cynllun Pensiwn Athrawon
<b>TPSR</b>	Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014
<b>TrP</b>	Gwarchodaeth Drosiannol

Tabl 25: Tabl Acronymau

## Tabl Termiau

189. Mae trosolwg o'r termau a ddefnyddir yn yr EIA hwn isod:

Term	Disgrifiad
<b>Aelod gweithgar</b>	Aelodau sy'n gweithio (mewn gwasanaeth pensiynadwy) ac yn cronni buddion pensiwn ychwanegol o'r gwaith hwnnw ac o gyfraniadau a delir gan eu cyflogwr ar eu rhan. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r aelod hefyd yn gwneud cyfraniadau
<b>Budd pensiwn wedi'u hychwanegu neu ychwanegol</b>	Hyblygrwydd sydd ar gael yn y cynllun etifeddiaeth neu ddiwygiedig sy'n galluogi aelodau i brynu symiau ychwanegol o bensiwn drwy gyfandaliad neu drwy ddiydniadau rheolaidd o'r cyflog
<b>Datganiadau Buddion Blynnyddol</b>	Y datganiad y mae aelodau yn ei dderbyn bob blwyddyn yn dweud wrthynt faint yw gwerth eu pensiwn
<b>Busnes fel arfer</b>	Prosesau a oedd ar waith gyda gweinyddwyr y cynllun cyn achos McCloud y gellir eu defnyddio i gyflawni'r rhwymedi a dileu'r gwahaniaethu anghyfreithlon
<b>Cynllun Enillion Cyfartaledd Gyrfawedi'u Hailbriso</b>	Cynllun pensiwn buddion diffiniedig sy'n rhoi pensiwn i unigolion yn seiliedig ar ganran o'r cyflog a enillwyd ym mhob blwyddyn o'u bywyd gwaith. Mae cronniad yn seiliedig ar 1/57fed o'ch enillion pensiynadwy bob blwyddyn <sup>41</sup> (gan gynnwys goramser) ynghyd â chysylltiadau â mynegai. Mae'r swm hwn yn cael ei fancio bob blwyddyn gyda'ch pensiwn terfynol yn cynnwys yr holl symiau sydd wedi'u bancio bob blwyddyn.
<b>Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod</b>	Gwerth a roddir ar hawliau pensiwn croniedig mewn amgylchiadau penodol, megis pan fydd unrhyw weithiwr yn peidio â bod yn aelod gweithredol o gynllun cyn bod pensiwn yn daladwy ac yn dymuno trosglwyddo'r hawliau pensiwn hynny i fathau penodol o gynlluniau pensiwn eraill megis cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio yn y sector preifat. Gall pawb ofyn am CETV ac eithrio yn y flwyddyn cyn ymddeol, ond gall cynlluniau wrthod derbyn y cais CETV
<b>Penderfyniad Wrth Gefn</b>	Mae'n cyfeirio at ddewis neu ddull gweithredu amgen y gallai aelod fod wedi'i gymryd pe byddai amgylchiadau eu buddion wedi bod yn wahanol.
<b>Sail dewis gohiriedig</b>	Yr opsiwn buddion ar gyfer dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a nodir gan y Llys. Byddai aelodau a arferai fod heb warchodaeth yn cael eu dychwelyd i'w cynllun etifeddiaeth am y cyfnod rhwymedi (2015 – 2022). Pan fydd buddion yn daladwy byddent yn gallu dewis buddion cynllun etifeddiaeth neu fuddion cynllun diwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwymedi.

<sup>41</sup> Oni bai fod yr hyblygrwydd cronni cyflymach yn cael ei brynu sy'n newid y gyfradd gronni

<b>Aelod gohiriedig</b>	Aelod sydd wedi rhoi'r gorau i Gronni Buddion yn ei gynllun, er enghraifft, ar ôl gadael cyflogaeth a gwmpesir gan y cynllun hwnnw, neu optio allan o'r cynllun. Nid oes unrhyw fuddion pensiwn wedi dod yn daladwy i'r aelod o'r cynllun eto a gelwir y pensiwn a gronnwyd yn flaenorol yn bensiwn gohiriedig neu gadwedig.
<b>Gostyngiad ymddeoliad cynnar - gadael y system</b>	Hyblygrwydd sydd ar gael yn y cynllun diwygiedig sy'n caniatáu i'r aelod brynu'r gostyngiad actiwaraidd a gymhwysir i unrhyw fuddion a gymerwyd cyn NPA, lle mae'r NPA dros 65. Gellir prynu gostyngiad actiwaraidd hyd at dair blynedd yn dibynnu ar nifer y blynyddoedd rhwng 65 oed a'r NPA o dan gyfartaledd gyrf. E.e., byddai aelod ag NPA o 66 yn gallu prynu allan 1 flwyddyn
<b>Cronni Cyflymach</b>	Hyblygrwydd yn y cynllun diwygiedig lle gall aelodau gweithredol, yn lle'r gyfradd Gronni Safonol o 1/57fed, brynu cyfradd Gronni well o 1/45fed, 1/50fed neu 1/55fed o enillion pensiynadwy ar gyfer blwyddyn gynllun benodol (1 Ebrill – 31 Mawrth)
<b>Cynllun cyflog terfynol</b>	Math o gynllun buddion wedi'u diffinio sy'n rhoi pensiwn i unigolion yn seiliedig ar nifer y blynyddoedd o wasanaeth pensiynadwy, y gyfradd Gronni a chyflog terfynol fel y'u diffinnir gan y cynllun
<b>Gwarchodaeth Llawn</b>	Derbyniodd aelodau a oedd 10 mlynedd neu lai o'r Oedran Pensiwn Arferol (NPA) o'u cynllun presennol ar 31 Mawrth 2012 gwarchodaeth llawn a chawsant aros yn y cynllun etifeddiaeth
<b>Adran Actiwari'r Llywodraeth</b>	Adran o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor actiwaraidd i gleientiaid y sector cyhoeddus
<b>Ymddeoliad oherwydd afiechyd</b>	Math o bensiwn sydd ar gael i aelod sy'n bodloni'r prawf perthnasol yn rheoliadau'r cynllun pan nad yw'n gallu parhau i weithio oherwydd afiechyd
<b>Dewis uniongyrchol</b>	Aelodau y gofynnir iddynt pa gynllun y maent am fod yn aelod ohono am y cyfnod rhwymedi cyn gynted â phosibl oherwydd bod eu dyddiad DCU wedi mynd heibio gan fod buddion eisoes yn daladwy h.y., mae'r aelod eisoes wedi ymddeol neu wedi marw.
<b>Cynllun etifeddiaeth</b>	Y cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus roedd aelodau ynddo cyn 1 Ebrill 2015
<b>Rhwymedi McCloud neu Rhwymedi Gwarchodaeth Drosiannol</b>	Enw trosfwaol y diwygiadau sy'n digwydd i unioni'r gwarchodaethau gwahaniaethol a roddir i aelodau wrth symud i drefniadau'r cynllun diwygiedig. Mae hyn yn cyfeirio at argaeledd DCU ochr yn ochr â symud aelodau o'r cynllun diwygiedig i'r cynllun etifeddiaeth.
<b>Isafswm Oedran Pensiwn</b>	Yr oedran cynharaf y gall buddion ymddeol arferol gael eu talu i aelod o dan reolau'r cynllun hwnnw, ac yn ddarostyngedig i derfynau treth. Nid yw MPAs yn berthnasol i bensiynau afiechyd a goroeswyr
<b>Oedran Pensiwn Arferol</b>	Yr oedran y gall aelod o gynllun pensiwn ddechrau cymryd buddion pensiwn yn wirfoddol heb unrhyw ostyngiadau. Mae NPA wedi'i osod yn rheolau'r cynllun. Gall aelod ymddeol yn

	wirfoddol cyn NPA, os yw dros ei MPA, ond bydd wedyn yn wynebu gostyngiad yn ei fuddion.
<b>Gorchymyn Rhannu Pensiwn, Aelod Debyd Pensiwn ac Aelod Credyd Pensiwn</b>	Dull o setliad ariannol yn ystod ysgariad lle bydd cyn-briod neu bartner sifil yn cael cyfran ganrannol o pensiwn(pensiynau) priod neu bartner sifil. Cyfeirir at yr aelod o'r cynllun fel Aelod Debyd Pensiwn ac mae'r gyfran a ddyfernir i'w gyn-briod neu bartner sifil yn Aelod Credyd Pensiwn yn y cynllun.
<b>Aelod sy'n bensiynwr</b>	Unigolion sy'n cael pensiwn ac sy'n gyn-gyflogeion yn bennaf. Fodd bynnag, gallant hefyd gynnwys gweddwon, gwŷr gweddw, a dibynyddion eraill cyn-aelodau gweithredol. Ar gyfer y data o fewn yr EIA hwn, mae aelodau sy'n bensiynwyr hefyd yn cynnwys y data ar gyfer aelodau ymadawedig o'r cynllun sydd o fewn cwmpas rhwymedi McCloud/Gwarchodaeth Drosiannol.
<b>Cynllun diwygiedig</b>	Y cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus diwygiedig a gyflwynwyd o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yr ymunodd pob aelod ag ef ar 1 Ebrill 2022, os oeddent yn weithredol
<b>Gwasanaeth Adferadwy</b>	Mae'r holl fuddion a gronwyd rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yn fuddion gwasanaeth adferadwy pan fo'r aelod wedi ymrwmo i drefniant y cynllun etifeddiaeth, ond bod ganddo'r dewis i symud i'r trefniant diwygiedig ar gyfer y cyfnod hwn.
<b>Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (SPA)</b>	Yr oedran y gall unigolyn ddechrau hawlio pensiwn y wladwriaeth. Mae'r oedrannau'n amrywio rhwng unigolion sydd â phenblwyddi gwahanol. Dyma hefyd oedran ymddeol y cynllun diwygiedig, os yw'r SPA dros 65 oed.
<b>Gwarchodaeth Daprog</b>	Cafodd aelodau sydd dros 10 mlynedd ond llai na 13½ mlynedd o NPA eu cynllun presennol warchodaeth daprog. Arhoson nhw yn y cynllun etifeddiaeth tan eu dyddiad trosglwyddo pan gawson nhw eu symud wedyn i'r cynllun diwygiedig. Roedd hyn yn golygu bod eu dyddiad trosglwyddo yn hwyrach na 1 Ebrill 2015 ond cyn 1 Chwefror 2022.
<b>Heb Warchodaeth Gwarchodaeth Drawsnewid neu Drosiannol</b>	Ni chafodd aelodau dros 13 ½ mlynedd o NPA eu cynllun presennol warchodaeth a chawsant eu symud i'r cynllun diwygiedig ar 1 Ebrill 2015

**Tabl 26: Tabl Termau**



Department  
for Education

Yr Adran  
Addysg

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i

[nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3).

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn:

ymholiadau [www.education.gov.uk/contactus](https://www.education.gov.uk/contactus)

lawrlwytho [www.gov.uk/government/publications](https://www.gov.uk/government/publications)



Dilyn ni ar Twitter:  
[@educationgovuk](https://twitter.com/educationgovuk)



Hoffi ni ar Facebook:  
[facebook.com/educationgovuk](https://facebook.com/educationgovuk)